# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Chwefror 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Sesiwn gyhoeddus

09.30 - 11.00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Papurau i'w nodi

09.30

### 2.1 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 17 Ionawr 2025

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 Dyfodol Dur yng Nghymru**

(Tudalennau 2 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 20 Ionawr 2025

**2.3 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

(Tudalen 7)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 21 Ionawr 2025

**2.4 Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod**

(Tudalennau 8 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at Gadeiryddion Pwyllgorau - 21 Ionawr 2025

**2.5 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

(Tudalennau 12 - 13)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 23 Ionawr 2025

**2.6 Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a'r system addysg**

(Tudalennau 14 - 29)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 23 Ionawr 2025

**2.7 Sesiwn Graffu Flynyddol Banc Datblygu Cymru – 20 Tachwedd 2024: Gwaith dilynol**

(Tudalennau 30 – 35)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru – 24 Ionawr 2025

## 3 Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Sesiwn graffu ar waith y Gweinidog

09.30 – 11.00 (Tudalennau 36 – 66)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru,
Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Mark Alexander, Dirprwy Gyfarwyddwr – Uned Diwygio Rheolaeth Tir, Llywodraeth Cymru
Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr – Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.00

## Sesiwn breifat

11.00 – 12.30

## 5 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

11.00 – 11.10

## 6 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Hawliau Cyflogaeth

11.10 - 11.15 (Tudalennau 67 - 76)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyngor cyfreithiol (Saesneg yn unig)

## 7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)

11.15 - 11.25 (Tudalennau 77 - 108)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Nodyn cyngor cyfreithiol

## 8 Ymchwiliad Hybu Cig Cymru: Trafod y papur Cwmpas a Dull

11.25 - 11.30 (Tudalennau 109 - 113)

**Dogfennau atodol:**

Papur cwmpasu (Saesneg yn unig)

## 9 Yr Economi Sylfaenol: Trafod y materion allweddol

11.30 - 12.00 (Tudalennau 114 - 134)

**Dogfennau atodol:**

Papur materion allweddol (Saesneg yn unig)

## 10 Yr Economi Werdd: Trafod yr adroddiad drafft

12.00 - 12.30 (Tudalennau 135 - 189)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft yr Economi Werdd (Saesneg yn unig)

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: DC-RE-10655-24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

17 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi am y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant (IMG) a'r cyfarfod a gynhelir ar 21 Ionawr 2025.

Bydd yr IMG yn cael ei gadeirio gan Weinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros Ddiwydiant, Sarah Jones AS. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod. Dyma fydd cyfarfod cyntaf yr IMG ers mis Ionawr 2023 ac ers yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a bydd yn gyfarfod hybrid.  Rwy'n rhag-weld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Strategaeth Ddiwydiannol ac yn rhoi cyfle i Drysorlys ei Fawrhydi a'r gwledydd datganoledig i ddarparu diweddariad economaidd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir

Rebecca

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

20 Ionawr 2025

Annwyl Andrew,

Rwy'n sgrifennu atoch mewn ymateb i lythyr eich rhagflaenydd, dyddiedig 13 Rhagfyr 2024 yn gofyn am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a godwyd yn ystod sesiwn Pwyllgor ETRA ar Ddyfodol Dur Cymru a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd.

Mae eich llythyr yn gofyn am eglurhad pellach ar bum pwynt. Byddaf yn ymdrin â nhw yn y llythyr hwn.

**Dyfodol Dur Cymru**

- *A allech chi nodi pa waith paratoi sy'n cael ei wneud i ymateb i gynnydd posibl yn y galw am fentrau cymorth Llywodraeth Cymru sydd ar gael i weithwyr, busnesau a'r gadwyn gyflenwi dros y misoedd nesaf?*

  Cymorth Cyflogadwyedd a Sgiliau

  Yn sgil y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt â Tata a'r tebygolrwydd y bydd swyddi'n cael eu colli yn ystod 2024-25, cytunodd y Cabinet ar £4.75m ychwanegol rhwng cyllidebau Drafft a Therfynol 2024-25 i gefnogi'r diwydiant dur drwy ReAct+ a rhaglenni cyflogadwyedd allweddol eraill gan gynnwys Twf Swyddi Cymru+ a Cymunedau am Waith +.

  Gyda chyllideb ddrafft 2025-26 yn seiliedig ar gyllideb derfynol 2024-25, cadwyd y £4.75m hwn o fewn llinell sylfaen Cyflogadwyedd gan gynnwys llinell wariant YPG (4464). Bydd ar gael felly i gefnogi'r galw drwy'r rhaglen ReAct+ yn 2025-26.

  Mae'r rhaglen ReAct+ wedi'i chynllunio i fod yn ystwyth ac yn hyblyg ar adegau pan gollir nifer fawr o swyddi ac mae'n barod i allu ymateb i gynnydd posibl mewn diswyddiadau.

  Yn 1 Ionawr 2025, cafodd Cymunedau am Waith + ei estyn a'i wneud yn fwy hyblyg i gefnogi mwy o bobl y mae diswyddiadau wedi effeithio arnynt. Bellach mae'n cynnig cefnogaeth i:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

- unigolion y cafodd eu swyddi eu dileu o fewn y chwe mis diwethaf.
- unigolion sy'n derbyn hysbysiad dileu swydd gyda'r dyddiad gadael wedi'i gadarnhau.

Mae'r newidiadau yn caniatáu i Cymunedau am Waith + weithio'n effeithiol gyda ReAct+ ac ymyriadau eraill gan gynnwys y Gronfa Cymorth Cyflogadwyedd a sicrhau bod ei gymorth mentor cyflogadwyedd i unigolion ar gael i bawb yr effeithiwyd arno o ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

Trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF), derbyniodd Undeb Community £25k yn ychwanegol ar ddiwedd 2024 i'w helpu i ateb y galw am hyfforddiant gan y gweithwyr hynny nad oeddent yn gymwys am arian Pontio Llywodraeth y DU pan oedd angen yr hyfforddiant arnynt. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae cyllideb gyffredinol WULF wedi'i chwyddo ar gyfer 2025-26 yn dilyn y toriad a gyflwynwyd y flwyddyn gyfredol, 2024-25.

<u>Cymorth i'r Gadwyn Gyflenwi</u>

Ers ei lansio ar 30 Medi 2024, mae Cronfa Bontio'r Gadwyn Gyflenwi (y Gronfa) wedi canolbwyntio'n llwyr ar helpu busnesau sy'n dibynnu ar Tata Steel UK ac y mae cau'r ffwrnais chwyth wedi effeithio arnynt. Bydd y Gronfa, a ariennir gan Lywodraeth y DU, yn cael ei neilltuo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan ddarparu'r cymorth grant mewn partneriaeth â gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru, a fydd yn rheoli'r cymorth a'r cyngor i fusnesau yr effeithir arnynt.

Mae busnesau sydd ar hyn o bryd 30% yn ddibynnol ar Tata Steel UK yn gallu cael cymorth pwrpasol i leihau'r effaith ar eu busnes a'u cadwyni cyflenwi.

Busnes Cymru fydd i ddechrau yn dewis pa fusnesau yn y gadwyn gyflenwi fydd yn cael help, hynny gan ddefnyddio gwiriwr cymhwysedd digidol. Gwneir diagnosis manwl i ddeall ac asesu effaith y golled ar y busnes. Bydd y Gronfa yn darparu cymorth arbenigol pwrpasol hefyd i helpu i ddygymod â'r newid, sy'n ychwanegol at yr hyn a gynigir gan Busnes Cymru, er budd busnesau yng nghadwyn gyflenwi Tata Steel UK.

Bydd y Gronfa yn hyblyg wrth ymateb i'r galw ac yn blaenoriaethu cwmnïau yng nghadwyn gyflenwi Tata Steel UK yr ystyrir eu bod o dan risg uchel ac yn wynebu heriau.

Gall busnesau cymwys ar draws ystod o sectorau wneud cais, fodd bynnag bydd busnesau gweithgynhyrchu, peirianneg, saernïo, TGCh, adeiladu ac ynni adnewyddadwy yn cael blaenoriaeth.

Bydd y grant yn cael ei ystyried ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau mawr tymor hwy yn yr ardal gan gynnwys y ffwrnais arc drydan yn Tata Steel UK; datblygiadau gan Associated British Ports gan gynnwys gwynt arnofiol yn y Porthladd Rhydd Celtaidd; a thechnoleg hydrogen ym Mae Baglan. Bydd yn helpu busnesau i wneud y gorau o'u cyfleoedd, lliniaru effeithiau'r pontio a helpu i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, gan gyfrannu'n gadarnhaol at wireddu gweledigaeth tymor hwy llywodraethau'r DU, Cymru a lleol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Ar 19 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd llywodraeth y DU gyllid ar gyfer y Cronfeydd Twf Busnes, Cydnerthedd a Chychwyn Busnes. Amcan y 'Gronfa Twf Busnes' fydd cyflwyno pecynnau grant arbenigol i'r busnesau hynny sy'n ceisio cynyddu eu rôl yn yr economi leol, bydd y 'Gronfa Cydnerthedd' yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau lleol y mae'r newid yn Tata wedi effeithio arnynt ond nad oeddent yn gymwys i wneud cais am gymorth drwy'r Gronfa Cadwyn Gyflenwi. Yn olaf, bydd y Gronfa Cychwyn Busnes yn rhoi cyngor busnes a chymorth ariannol i weithwyr dur Tata, eu teuluoedd agos ac eraill yn y gadwyn gyflenwi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaeth presennol Busnes Cymru er mwyn ymdrin ag ymholiadau gan unigolion sy'n wynebu colli eu swyddi ac sydd am ddechrau eu busnes eu hunain a chan fusnesau yn yr ardal yr effeithir arnynt sydd angen bod yn fwy gwydn neu sy'n cyflwyno cyfleoedd ar gyfer twf a chyflogaeth. Bydd Busnes Cymru yn darparu un pwynt mynediad, i roi cyngor i gefnogi busnesau newydd a helpu busnesau sy'n bod i fod yn fwy gwydn, i gael hyd i farchnadoedd newydd, ysgogi cynhyrchiant uwch ac i dyfu.

Bydd Busnes Cymru yn dewis pa gleientiaid sydd angen cymorth busnes, yn helpu i baratoi cynlluniau busnes perthnasol ac yn gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot i benderfynu pwy sydd â'r potensial i fod yn gymwys am grant, helpu ymgeiswyr i wneud cais a chyfeirio pobl addas i geisio am grant.

Cymorth iechyd meddwl a llesiant

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn parhau i gymryd rhan yn y trefniadau pontio i sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar yr Hwb ar-lein a ddatblygwyd i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i gymorth a'i gyrchu. Mae gwefan Sorted:Supported wedi'i sefydlu hefyd i'w gwneud yn haws cael gafael ar gymorth iechyd meddwl: Home Page - Sorted Supported Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fonitro unrhyw newidiadau yn y galw/angen am wasanaethau iechyd meddwl ac rydym hefyd yn monitro 111 opsiwn 2. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn asesu'r effaith ar iechyd i helpu gwasanaethau i ragweld anghenion y dyfodol ac i lywio cynllunio tymor hwy.

- *A allech chi nodi pa ddata sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd, a pha ddata ychwanegol y bwriedir eu casglu, mewn perthynas â mynediad at y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru?*

Cymorth Cyflogadwyedd a Sgiliau

Mae'r rhaglen ReAct+ yn casglu data am ymgeiswyr grant drwy Gynllun Gweithredu Gyrfaoedd Cymru'n Gweithio (mae pob ymgeisydd yn derbyn cyngor diduedd ac arweiniad gan Cymru'n Gweithio), porth ar-lein ReAct+ ac arolygon o gyfranogwyr. Mae'r data a gesglir yn cynnwys, er enghraifft, cyn-gyflogwr, hanes gwaith a phrofiad blaenorol; cymwysterau a sgiliau cyfredol; pa sgiliau sydd eu hangen ar yr ymgeisydd; cyrsiau hyfforddi y bydd yn eu dilyn a data cefndir am y cyfranogwr (gan gynnwys statws anabledd ac ethnigrwydd). Bydd gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen ReAct+ yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni a gofynnir i'r sefydliad sy'n ei gynnal ystyried diswyddiadau Tata/sy'n gysylltiedig â Tata.

Mae Cymunedau am Waith + yn casglu ystod eang o ddata hefyd am gefndir cyfranogwyr, gan gynnwys, er enghraifft, amgylchiadau cyfranogwyr pan gysylltir â nhw a'r canlyniadau a gyflawnwyd (gan gynnwys canlyniadau 'i gyflogaeth'). Yn unol

â'r newidiadau ynghylch pwy sy'n gymwys, cesglir data ynghylch pwy sydd wedi cael hysbysiadau diswyddo lle bo hynny'n briodol.

Ar gyfer WULF, cesglir data am nifer o gyflawniadau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt yn flynyddol, yn bennaf yn ymwneud â chymorth i ddysgwyr. Yn Tata, mae 618 o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau achrededig ac wedi dilyn cyrsiau dysgu heb eu hachredu yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2024-25) hyd yma.

Cymorth i'r Gadwyn Gyflenwi

Fel rhan o'r cytundeb cyllido, mae Llywodraeth y DU wedi nodi fframwaith Monitro a Gwerthuso a fydd yn amlinellu'r data y bydd angen eu casglu a'u cofnodi mewn perthynas â'r holl Gronfeydd.  Bydd Busnes Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn casglu data sy'n berthnasol i'w hymyriad ac yn eu defnyddio i gynhyrchu adroddiadau chwarterol ar berfformiad rhaglenni ar gyfer Llywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn prosesu data yn unol â hysbysiad preifatrwydd Busnes Cymru.

**Buddsoddiad yn y dyfodol ym Mhort Talbot a'r ardaloedd cyfagos**

- *Sut rydych chi'n cydweithio â Llywodraeth y DU a busnesau i sicrhau cyfleoedd i ddur Cymru gael ei ddefnyddio yn y tyrbinau gwynt arnofiol ar y môr y bydd eu hangen yn y Môr Celtaidd dros y blynyddoedd nesaf?*

Cafwyd trafod cadarnhaol a buan rhwng Prif Weinidog y DU, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach ar ddatblygu Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys rôl bosibl dur gwyrdd ac Ynni Gwynt Arnofiol (FLOW) yn y Môr Celtaidd mewn perthynas â sicrhau twf hirdymor, cynaliadwy, cynhwysol a gwydn.   Mae'r trafod hwn yn parhau, hynny cyn cyhoeddi'r strategaeth yn y Gwanwyn.

Mae'r cyntaf o bedwar Adolygiad Tymor Byr yr wyf wedi'u comisiynu i gyflymu'r broses o gyflawni ein Cenhadaeth Economaidd, yn canolbwyntio ar FLOW gan ddod ag arbenigwyr allanol a phrofiad busnes ymarferol ynghyd i sbarduno gwaith yn y maes hwn. Disgwylir cwblhau'r adolygiad erbyn y Gwanwyn, ond mae gwybodaeth eisoes wedi cyfrannu at ein trafod â Llywodraeth y DU.  Mae'n amlwg ei bod hi'n hanfodol buddsoddi mewn dur a phorthladdoedd i wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi FLOW, hynny ledled y DU yn ogystal â thyrbinau gwynt yn y Môr Celtaidd, ac yn y potensial i agor cyfleoedd ar gyfer allforion.  Mae hefyd yn werth sôn am y cysylltiad cryf â'r diwydiant dur a sectorau twf uchel eraill a nodwyd yn y Strategaeth Ddiwydiannol megis gweithgynhyrchu uwch gan gynnwys awyrofod a cherbydau.

Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond rhan o'r stori yw dur o ran cyfleoedd o fewn cadwyn gyflenwi FLOW. Mae rhwystrau eraill sylweddol y bydd angen eu goresgyn mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i wneud yr uchelgeisiau hyn yn realistig ac yn gyraeddadwy.  Bydd datrys problemau cymhleth yn ymwneud â rheoleiddio, prisiau ynni, cysylltiadau â'r grid a seilwaith allweddol arall yn heriol.

Ar 07 Ionawr, cyhoeddais greu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr sy'n cynnwys arweinwyr allweddol y sector a rhanddeiliaid perthnasol.  Bydd y Grŵp yn darparu asesiad manwl o ymarferoldeb gwynt y môr i Gymru, yn nodi meysydd blaenoriaeth i sicrhau newid economaidd a chymdeithasol yn ein cymunedau

arfordirol a'n heconomi ehangach a bydd yn datblygu cynllun clir gyda gweithredoedd ac amserlenni pendant i wneud y gorau o'r cyfleoedd i Gymru o wynt y môr.

- *Nodwn fod y safleoedd treth ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd wedi'u dynodi yn ddiweddar, a bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol. A allech chi nodi'r amserlenni tebygol ar gyfer cwblhau'r camau sy'n weddill cyn i'r porthladd rhydd ddod yn gwbl weithredol, a chadarnhau pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael am fuddsoddi yn y safleoedd porthladd rhydd?*

  Gyda'i safleoedd treth wedi'u dynodi, mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd bellach yn weithredol gan y gall busnesau ar y safleoedd fod yn gymwys i gael gostyngiad treth. Ar hyn o bryd rydym yn helpu'r Porthladd Rhydd i baratoi ei Achos Busnes Llawn ac rydym yn paratoi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) a fydd, pan fydd wedi'i gymeradwyo, yn caniatáu inni ddechrau rhyddhau cyllid cyfalaf sbarduno i Celtic ar gyfer prosiectau seilwaith a sgiliau. Rydym yn anelu at arwyddo MoU yng Ngwanwyn 2025.

  Mae fy swyddogion, ynghyd â swyddogion Llywodraeth y DU, wedi gweithio'n agos gyda'r Porthladd Rhydd Celtaidd i ddatblygu ei Strategaeth Masnach a Buddsoddi. Mae'r gwaith hwn bellach ar fin dod i ben gyda swyddogion yn cefnogi'r Porthladd Rhydd i farchnata cyfleoedd busnes a denu buddsoddwyr gyda'r nod o ddod â swyddi o ansawdd da i Bort Talbot, Aberdaugleddau a'r ardaloedd cyfagos.

- *Rhagwelir y bydd y Porthladd Rhydd Celtaidd a ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yn sicrhau manteision yn y tymor hwy. A allech chi nodi sut rydych chi'n cydweithio â Llywodraeth y DU i ddod â buddsoddiad a swyddi cynaliadwy, sy'n talu'n dda, i Bort Talbot a'r cyffiniau yn y cyfamser?*

  Fel y nodwyd uchod, mae'r cyntaf o bedwar Adolygiad Tymor Byr yr wyf wedi'u comisiynu i gyflymu'r broses o gyflawni ein Cenhadaeth Economaidd, yn canolbwyntio ar FLOW. Mae'r adolygiad hyd yma wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau llif o brosiectau yn y cyfnod interim ar gyfer busnesau ym Mhort Talbot a'r ardal gyfagos a fydd, gobeithio, yn manteisio ar gyfleoedd o fewn cadwyn gyflenwi FLOW yn y blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

21 Ionawr 2025

Annwyl Andrew

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ionawr 2025.

Y cyfarfod hwn fydd y cyfarfod cyntaf ers etholiad cyffredinol y DU a bydd yn trafod y gwaith ymgysylltu rhwng gweinyddiaethau'r DU, Strategaeth Fasnach Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar nifer o drafodaethau masnach cyfredol.

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Pwyllgorau'r Senedd

21 Ionawr 2025

Annwyl Cadeirydd,

**Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod**

Mae'r Pwyllgor Busnes yn adolygu prosesau'r Senedd ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod. Hoffem glywed eich barn am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella.

Ynghlwm wrth y llythyr hwn mae'r cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith a rhestr o'r meysydd ffocws ar gyfer ein gwaith casglu tystiolaeth cychwynnol yr ydym wedi'i nodi hyd yma. Byddem yn croesawu eich barn ar y materion o fewn ein cylch gorchwyl sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys y meysydd ffocws, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i hynny. Os hoffech chi godi unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'n cylch gorchwyl yn eich tystiolaeth, mae croeso i chi wneud hynny.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu eich tystiolaeth ysgrifenedig **erbyn dydd Gwener 28 Mawrth 2025**. Gallwch naill ai anfon eich tystiolaeth i SeneddBusnes@senedd.cymru neu ymateb i gwestiynau penodol ar bob un o'r meysydd ffocws a nodir yn y ffurflen ar-lein sydd ar gael fel rhan o'n hymgynghoriad agored

Er mwyn sicrhau bod unrhyw un sydd am rannu ei farn am y prosesau deddfwriaethol yn gallu gwneud hynny, rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad agored. Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu'r ymgynghoriad â'ch rhanddeiliaid.

Yn gywir,

Elin

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: cylch gorchwyl a meysydd ffocws ar gyfer y cam casglu tystiolaeth cychwynnol

## Y broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus

### Cylch gorchwyl

Archwilio opsiynau ar gyfer gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd gwaith y Senedd wrth graffu arFiliau Cyhoeddus, a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26, drwy adolygu profiadau yn y Chweched Senedd (a Seneddau blaenorol lle y bo'n berthnasol), gan gynnwys y canlynol:

- Gweithdrefnau, arferion, confensiynau, diwylliant a ffyrdd o weithio perthnasol.
- Y profiad o ddeddfu mewn amgylchedd hybrid.

### Meysydd ffocws ar gyfer y cam casglu tystiolaeth cychwynnol

- Effeithiolrwydd cyffredinol ystyriaeth y Senedd o Filiau Cyhoeddus, a chyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyfrannu at waith craffu'r Senedd.
- Amserlennu gwaith craffu'r Senedd ar Filiau Cyhoeddus, gan gynnwys: pennu amserlenni Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.7 (a'r ffactorau a ystyrir wrth bennu amserlenni); ac amseru terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau, cyhoeddi Rhestrau o Welliannau wedi'u Didoli/Rhestrau wedi'u Grwpio a thrafodion.
- Y deunyddiau a'r wybodaeth esboniadol a ddarperir yn ystod y broses graffu ar Fil Cyhoeddus, gan gynnwys: y gofynion ar gyfer Memoranda Esboniadol a nodir yn y Rheolau Sefydlog; amseriad ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau pwyllgor Cyfnod 1; darparu a chyflwyno gwybodaeth arall yn ystod y broses graffu (megis dogfennau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru neu gyhoeddiadau Ymchwil y Senedd); trefniadau o ran llunio testun sy'n esbonio diben ac effaith gwelliannau; ac argaeledd, hygyrchedd ac eglurder y canllawiau sydd ar gael i Aelodau a'r cyhoedd am y broses ddeddfwriaethol.
- Sut yr asesir derbyniadwyedd gwelliannau, a'r modd y caiff gwelliannau i Filiau eu trafod a'u gwaredu.
- Sut y gofynnir i'r Senedd gytuno i ganlyniadau ariannol Biliau a gwelliannau, gan gynnwys cynnig Penderfyniadau Ariannol ac a yw'n ddigon clir sut y dylid dehongli 'arwyddocaol' at ddibenion Rheolau Sefydlog 26.69-26.71.
- A yw'r rheolau sy'n ymwneud â'r cyfnodau diwygio 'Pellach' dewisol yn ddigon clir.

- Y rheolau sy'n ymwneud â Biliau brys.
- A yw'r profiad o ddeddfu mewn cyd-destun hybrid – y gall Aelodau ac eraill gymryd rhan ynddo'n rhithwir neu wyneb yn wyneb – wedi cael unrhyw effaith ar waith craffu'r Senedd ar Filiau Cyhoeddus.
- Unrhyw ystyriaethau ar gyfer y broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus sy'n deillio o gynyddu nifer yr Aelodau o 60 i 96 Aelod yn 2026 neu gynyddu pa mor aml y cynhelir etholiadau arferol y Senedd o bob pum mlynedd i bob pedair blynedd.

## Y broses ar gyfer Biliau Aelod

### Cylch gorchwyl

Archwilio opsiynau ar gyfer gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd proses y Senedd ar gyfer Biliau Aelod, drwy gymryd y camau a ganlyn:

- Adolygu profiadau yn y Chweched Senedd (a Seneddau blaenorol lle y bo'n berthnasol), gan gynnwys gweithdrefnau, arferion, confensiynau, diwylliant a ffyrdd o weithio perthnasol cyn cyflwyno Bil Aelod (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffordd y caiff Aelodau eu dewis ar gyfer y cyfle i gynnig Bil, y broses ar gyfer cael 'caniatâd i gyflwyno', a lefel y wybodaeth y mae'n ofynnol i Aelodau ei darparu ar y camau hyn).
- Nodi unrhyw oblygiadau posibl i'r broses ar gyfer Bil Aelod sy'n deillio o'r cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd.
- Nodi materion sy'n ymwneud â'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau yn ystod y broses ar gyfer Bil Aelod a'u codi gyda'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol, gan gynnwys Comisiwn y Senedd a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

### Meysydd ffocws ar gyfer y cam casglu tystiolaeth cychwynnol

- Effeithiolrwydd cyffredinol y broses ar gyfer Bil Aelod.
- Sut y caiff Aelodau eu dewis ar gyfer y cyfle i gynnig Bil.
- Sut y caiff Aelodau ganiatâd i gyflwyno Biliau.
- Y rheolau ynghylch yr hyn y gellir ei gynnwys mewn Bil Aelod a'r hyn na ellir ei gynnwys, h.y. 'cwmpas' Biliau o'r fath.
- Unrhyw ystyriaethau o ran y broses ar gyfer Biliau Aelod sy'n deillio o gynyddu nifer yr Aelodau o 60 i 96 Aelod yn 2026 neu gynyddu pa mor aml y cynhelir etholiadau arferol y Senedd o bob pum mlynedd i bob pedair blynedd.

- Goblygiadau'r uchod i'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i Aelodau sydd am gynnig Biliau.

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

23 Ionawr 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr ar ran Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, mewn perthynas â chau Porthladd Caergybi dros dro. Gan nodi bod y materion a godwyd yn estyn dros sawl portffolio, dyma ymateb ar y cyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a minnau.

Rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor yn llawn am yr effeithiau tymor byr a thymor hir posibl o ganlyniad i'r cau dros dro ac wedi ceisio sicrhau bod yr holl Aelodau wedi cael gwybod am y camau cydweithredol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a'u partneriaid, yn enwedig Llywodraeth Iwerddon.

O ystyried cyflymder y digwyddiadau a'r ymatebion dilynol, mae'r pwyntiau sylweddol a godir gennych yn cael sylw i raddau helaeth trwy'r datganiadau canlynol sy'n darparu cronoleg o'r camau cyflym ar y cyd a gymerwyd:

**Datganiad Ysgrifenedig: Cau Porthladd Caergybi (14 Rhagfyr 2024)**

**Cyd-hysbysiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon Porthladd Caergybi (17 Rhagfyr 2024)**

**Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cau porthladd Caergybi dros dro (19 Rhagfyr 2024)**

**Datganiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Porthladd Caergybi (7 Ionawr 2025) – Eitem 5**

**Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Llywodraeth Cymru yn dilyn Ailagor Porthladd Caergybi (16 Ionawr 2025)**

Yn naturiol rydym yn falch iawn ei bod wedi bod yn bosibl i'r porthladd ailagor i fusnesau ar 16 Ionawr, gan adfer y capasiti arferol ar gyfer y ddau weithredwr fferi trwy ddefnyddio angorfa 5 a gwneud addasiadau i'r amserlen hwylio. Dylai hyn leihau yn sylweddol y heriau a wynebwyd gan y sector logisteg a theithwyr ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy gydol y cyfnod fu’r porthladd ar gau dros dro rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Iwerddon, gan siarad yn aml gyda'n cydweithwyr gweinidogol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weinidog a'r Taoiseach.

Gan roi sylw penodol i fusnesau a gweithwyr yr effeithir arnynt, a chyda chydnabyddiaeth o'r effeithiau economaidd lleol a rhanbarthol posibl, rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ynys Môn, sydd ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth o effaith bosibl y cau, gan gynnwys trwy arolwg sydd ar gael ar ei wefan i fusnesau ei gwblhau. Erbyn diwedd yr wythnos ddiwethaf, roedd 40 o ymatebion wedi dod i law. Mae dros 72% o'r rheini o'r sectorau lletygarwch, manwerthu a harddwch, 18% o logisteg a gwasanaethau cysylltiedig gyda'r gweddill o sectorau "eraill." Y themâu cyffredin oedd pryderon y byddai llai o hwylio yn effeithio ar refeniw yn y dyfodol a phryderon y byddai llai o hyder ym Mhorthladd Caergybi. Er y dylai ailagor y porthladd fynd i'r afael ag elfen sylweddol o'r pryderon hynny, rydym yn ymwybodol y gallai heriau newydd godi. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth hon ar y cyd yn barhaus ac yn ystyried unrhyw gamau angenrheidiol ar ôl i'r arolwg ddod i ben ddiwedd mis Ionawr.

Gan edrych ymlaen, i gefnogi adferiad y porthladd a lleihau'r risg o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, rydym wedi cyhoeddi y bydd tasglu aml-randdeiliaid dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cael ei sefydlu. Bydd y tasglu hwn yn datblygu strategaeth newydd ar gyfer dyfodol Caergybi, gan ganolbwyntio ar wytnwch cysylltedd môr rhwng Cymru ac Iwerddon. Bydd y tasglu'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraethau Cymru ac Iwerddon, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, busnesau rhanbarthol, cyrff logisteg, a gweithredwyr trafnidiaeth arwyneb.

Mae ein cynlluniau hefyd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn seilwaith y porthladd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gellir cynnal morglawdd y porthladd, fel bod modd parhau i ddefnyddio’r porthladd am ddegawdau lawer i ddod. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol i ddiogelu'r porthladd rhag digwyddiadau tywydd garw a pheryglon eraill yn y dyfodol.

Mae'r uchod yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau bod porthladd Caergybi nid yn unig yn gwella, ond yn ffynnu, gan ddarparu buddion economaidd i'r rhanbarth a chynnal ei phwysigrwydd strategol yng nghoridor masnach y DU ac Iwerddon.

Byddwn wrth gwrs yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor ac Aelodau o'r Senedd am ddatblygiadau a byddem yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth os bydd angen.

Yn gywir





**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

CC: Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone MS
Committee Chair - Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
SeneddEquality@senedd.wales

23 Ionawr 2025

Annwyl Jenny,

**Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a’r system addysg**

Diolch am eich llythyr yn ymwneud â'r ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd yng Nghymru. Rydym wedi ystyried eich ymholiadau ac wedi ymateb iddynt isod.

Yn ychwanegol at yr ymatebion manwl, hoffem bwysleisio ein cydymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys pob dysgwr anabl, yn cael ei gefnogi wrth iddo symud drwy ein system addysg ac ymlaen i gyflogaeth a hunangyflogaeth.

Drwy sicrhau bod cynhwysiant a thegwch yn cael eu hymgorffori'n llawn yn ein system addysg, ein nod yw gwella deilliannau pob dysgwr. Mae diwygiadau systemig i'r system addysg yn mynd rhagddynt yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a rhoi system Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ystyried pob dysgwr fel unigolyn sydd â chryfderau gwahanol a meysydd gwahanol i'w datblygu, ac mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i athrawon addysgu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn. Ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r system ADY yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth dysgu ychwanegol arnynt i ddiwallu eu ADY yn cael cynllun statudol, sef cynllun datblygu unigol, i gynllunio a diogelu'r ddarpariaeth honno. Mae'r system ADY yn cael ei chyflwyno yn lle'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac mae'n seiliedig ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a Chod ADY Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r system addysg yng Nghymru a'r system ADY ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth i bobl ifanc symud drwy ein system addysg, rydym wedi cyflwyno'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth, gan gynnwys cyngor a chanllawiau a rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau penodol.

Mae *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 yn nodi'r ffordd rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd, gan gynnwys sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i helpu pobl yng Nghymru i ymdopi â'r heriau sy'n gysylltiedig â gwaith y gallant fod yn eu hwynebu ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio, chwilio am lwybr gyrfa gwahanol neu ddechrau eu busnes eu hunain.

Rydym hefyd wedi rhoi amrywiaeth o adnoddau ar waith i helpu cyflogwyr i ddeall y model cymdeithasol o anabledd, recriwtio a chadw gweithwyr anabl, a dysgu am wneud addasiadau rhesymol yn y gweithle. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan ein tîm o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, y mae gan bob un ohonynt brofiad bywyd o fod yn anabl neu ofalu am bobl anabl. Mae rhagor o adnoddau hefyd ar gael drwy Busnes Cymru a'i Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.

Byddwch yn ymwybodol o'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, sydd wedi gweithio gyda phobl anabl ag arbenigedd, Sefydliadau Pobl Anabl, ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Ei ddiben oedd dod ag aelodau ynghyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau, a nodwyd yn adroddiad Drws ar Glo https://www.llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19 ac sy'n effeithio ar lawer o bobl anabl. Goruchwyliodd y tasglu 10 gweithgor mewn modd strategol, gan gynnwys y gweithgorau Cyflogaeth ac Incwm, Plant a Phobl Ifanc, a Theithio.

Mae'r tasglu wedi gweithio gyda mwy na 350 o randdeiliaid allanol a 200 o arweinwyr polisi ac mae wedi'i gefnogi gan Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru a'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Mae argymhellion y tasglu yn llywio cynllun gweithredu trawslywodraethol, yr ymgynghorir arno yn ystod y gwanwyn.

Er mwyn ymhelaethu ar hyn, rydym wedi rhoi ymateb manwl i bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn eich llythyr isod:

1. *Yr angen i sicrhau mynediad teg i gyfleoedd lleoliadau gwaith a'r angen i weithio gyda chyflogwyr i gyflawni hyn*

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad teg i gyfleoedd lleoliadau gwaith.

Drwy Gyrfa Cymru, rydym yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i bobl ifanc, gan gynnwys y rhain hynny ag anabledd, i'w helpu i sicrhau cyfleoedd gwaith – Cymorth Cyflogaeth | Gyrfa Cymru

Yn ychwanegol at gefnogi pobl ifanc, mae ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cymorth ymarferol i gyflogwyr ledled Cymru i'w helpu i gyflogi pobl anabl. Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn cynnig gwasanaeth am ddim i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ledled Cymru.

Gall yr Hyrwyddwyr, a gefnogir gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru, gynnig help a chyngor ar faterion megis:

- Recriwtio cynhwysol
- Cymorth ariannol
- Cyngor ymarferol ar gadw staff ac addasiadau rhesymol yn y gweithle
- Sicrhau bod polisïau Adnoddau Dynol a gweithleoedd yn gynhwysol
- Hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd
- Helpu cyflogwyr i ennill statws arweinydd Hyderus o Ran Anabledd

Drwy Busnes Cymru, rydym hefyd wedi cyflwyno cymorth i gyflogwyr ddileu'r rhwystrau i gyfleoedd cyflogaeth, ac mae rhagor o fanylion am hyn wedi'u cynnwys yn yr atebion i'ch cwestiynau manylach isod.

2. *Eich asesiad o sut mae cynllun profiad gwaith Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac ym mlwyddyn 11 yn gallu cefnogi dysgwyr anabl? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni ynghylch cyfran y dysgwyr hynny sy'n anabl?*

Rhaid i'r cwricwlwm a gynigir gan ysgol ym mlynyddoedd 10 ac 11 gynnig dysgu a phrofiadau cytbwys i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr anabl. Dylai gael ei ddylunio gan ystyried pedair elfen yr hawl i ddysgu 14 i 16. Yn benodol, myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16; a dysgu a phrofiadau ehangach ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Dylai hyn gwmpasu'r holl ddysgu a phrofiadau y bydd dysgwyr yn dod ar eu traws yn ystod eu taith 14 i 16.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ysgolion gynnig addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith mwy penodol ym mlynyddoedd 10 ac 11 i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol ac oedran, wedi'i hategu gan amrywiaeth eang o amgylcheddau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith perthnasol. Er mwyn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol.

Drwy'r prosiect Adnewyddu a Diwygio, a oedd â'r nod o fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar addysg a hyfforddiant, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyrfa Cymru gynnal prosiect Profiad Gwaith wedi'i Deilwra, er mwyn helpu i annog dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 i ailgydio yn eu hastudiaethau TGAU fel eu bod yn gallu symud ymlaen yn llwyddiannus i gam nesaf eu taith addysg a hyfforddiant. Rhwng 2022 a 2024, cafodd Gyrfa Cymru £517,000 ychwanegol i weithio gyda dwy ysgol ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cynnig 500 o leoliadau Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd dros 600 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra.

Ar gyfer 2024/25, sicrhaodd Llywodraeth Cymru £250,000 arall ar gyfer prosiect Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra, gan ei alluogi i barhau ar raddfa lai. Gofynnwyd i Gyrfa Cymru gynnig 250 o leoliadau ychwanegol i ddysgwyr, ar draws pum clwstwr o awdurdodau lleol. Gall Gyrfa Cymru nodi 55 o ddysgwyr o'i chofnodion sydd wedi cael lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra ac sydd ag anabledd.

Mae gan Gyrfa Cymru dîm o gynghorwyr ADY sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol a'u cefnogi i roi eu cynlluniau ar waith.

**Data**

Mae Adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2022/23 yn dangos bod Gyrfa Cymru wedi cefnogi 2,096 o bobl ifanc anabl mewn addysg statudol ac 880 o bobl ifanc mewn addysg ôl-statudol 16-17 (disgwylir i adroddiad 2023/24 gael ei gyhoeddi y gwanwyn hwn).

Yn ystod 2023/24 roedd Gyrfa Cymru wedi rhyngweithio â 4,686 o bobl ifanc sydd â datganiad AAA / datganiad cyfatebol neu gynllun datblygu unigol ar lefel un-i-un. Fel rhan o'u cymorth ar gyfer ADY, mynychodd Gyrfa Cymru 3,612 o adolygiadau o'r broses drosglwyddo rhwng y gwahanol lefelau o addysg a dysgu gydag ysgolion, darparwyr, rhieni a phobl ifanc i sicrhau bod y broses drosglwyddo yn ddidrafferth.

Mae adran Fy Nyfodol ar wefan Gyrfa Cymru yn cefnogi dysgwyr ifanc hyd at Lefel Un ac yn cynnwys gwybodaeth am yrfaoedd sy'n hawdd ei darllen. Yn ystod 2023/24 cafodd y dudalen hon ei chyrchu gan 6,600 o ddefnyddwyr, ac ychwanegwyd naw fideo newydd i arddangos gwahanol swyddi, gan gynnwys animeiddiwr, gweithiwr swyddfa a hyfforddwr ffitrwydd.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau eu dangosyddion perfformiad allweddol – gellir gweld yr adroddiad blynyddol diweddaraf drwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Ein hadroddiad blynyddol | Gyrfa Cymru]

Yn ychwanegol at hynny, mae Gyrfa Cymru yn llunio astudiaethau achos sy'n dangos effaith ei gwaith, gan gynnwys y rheini ag anabledd. Rydym wedi cynnwys un astudiaeth achos o'r fath isod:

**Astudiaeth achos – Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra**

Lleoliad: Garej

Cafodd X ei atgyfeirio at Profiad Gwaith Wedi'i Dargedu gan ei fod yn dangos arwyddion o ymddieithrio yn yr ysgol. Mae X yn gwisgo mewnblaniad yn y cochlea ar gyfer ei glust chwith ac mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn yr ysgol oherwydd y nam ar ei glyw.

Ers dechrau yn yr ysgol, mae X wedi cynyddu nifer ei ddiwrnodau ac mae bellach yn mynychu'r lleoliad ddwywaith yr wythnos. Mae'r garej yn gefnogol iawn i X. Mae X yn rhoi help llaw dros y gwyliau ac yn cael canmoliaeth fawr gan y cyflogwr am ei foeseg waith. Mae cyfradd bresenoldeb isel X wedi cynyddu i 94% ers iddo ddechrau lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra. Noda'r ysgol 108 o gofnodion cadarnhaol a 49 o gofnodion negyddol a dywedodd fod y ffaith bod X yn mynychu'r lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra ddwywaith yr wythnos yn ganlyniad gwych iddo, ei fod wedi magu hyder wrth gyfathrebu â'r staff a'i gyfoedion ers dechrau'r lleoliad, a'i fod yn hapusach yn yr ysgol.

Mae X yn teimlo bod ei leoliad yn ddiddorol iawn ac mae'n gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth y mae staff y garej wedi ei dangos ynddo wrth ganiatáu iddo weithio ar dasgau cymhleth gyda nhw. Dywedodd ei fod yn dechrau dysgu sut i ddatrys problemau. Dywedodd X ei bod yn deimlad gwych bod yn dda am wneud rhywbeth a'i fod yn teimlo'n hapusach ac yn fwy hyderus ers dechrau'r lleoliad. Mae'r garej yn falch iawn o'i gael yn y garej ac yn awyddus i gynnig cyfle iddynt pan fydd yn gorffen yn yr ysgol.

3. *Yn fwy cyffredinol, eich asesiad o sut mae'r rhan "Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith" o'r Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn cefnogi dysgwyr anabl.*

Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol ac oedran wedi'i ymwreiddio ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu (meysydd).

Yn ôl y canllawiau, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau megis oedran y dysgwyr, eu gwybodaeth a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Maent hefyd yn nodi, er mwyn i ymarferwyr fanteisio i'r eithaf ar brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, ei bod yn ddefnyddiol sicrhau bod profiadau yn hygyrch i bob dysgwr a'u bod yn ystyried anghenion a diddordebau penodol.

Mae'r canllawiau yn adeiladu ar hyn drwy nodi ei bod yn bwysig bod ymarferwyr, wrth ystyried profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, yn herio eu safbwyntiau eu hunain yn ogystal â safbwyntiau dysgwyr, rhieni a gofalwyr am faterion megis ystrydebau yn y gweithle. Mae gwybodaeth am y farchnad lafur yn galluogi dysgwyr i fod yn ymwybodol o dueddiadau o ran cyflog, rolau a lleoliad. Dylai ysgolion a lleoliadau gynnwys gwybodaeth gyfredol a diduedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol am y farchnad lafur, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn cael eu dylunio'n dda i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith i bob person ifanc (gan gynnwys y rheini anabledd) mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig brif ffrwd i gytuno ar ddigwyddiadau pwrpasol a'u trefnu, megis ymweliadau â safleoedd cyflogwyr neu ymweliadau gan gyflogwyr ag ysgolion i sgwrsio â dysgwyr.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal cyfres o ffeiriau gyrfaoedd 'Beth Nesaf?' i ddysgwyr ag ADY. Nod y digwyddiadau hyn yw tynnu sylw at y cyflogwyr a'r darparwyr a all gynnig llwybrau cynnydd ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae'r cyflogwyr a'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau yn cynnal gweithgareddau rhyngweithiol a diddorol sy'n galluogi'r dysgwyr i roi cynnig ar amrywiaeth o dasgau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd er mwyn dangos y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r adborth gan ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr bob amser yn gadarnhaol iawn. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnig gweithdai model rôl Syniadau Mawr Cymru i ddysgwyr ag ADY.

Mae gan Gyrfa Cymru nifer o adnoddau ar gael i gefnogi ysgolion i ddarparu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith, gan gynnwys;

- Pecyn cymorth Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith, adnodd i gefnogi pob athro, uwch dimau arweinyddiaeth a'r rhai sy'n cefnogi pobl ifanc, i wireddu ac ymgorffori Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'r adnodd yn cynnwys pecyn cymorth a blwch offer sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso darpariaeth addysg gyrfaoedd.
- Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru sy'n anelu at gefnogi pob ysgol a lleoliad sydd â dysgwyr 3 i 16 oed, i ddatblygu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith pwrpasol a pherthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r wobr yn cael ei threialu ar hyn o bryd yn barod ar gyfer 2026.

4. *I ba raddau y mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau trydydd parti i ddarparu profiadau cyfoethogi o ansawdd uchel i ddysgwyr, yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni?*

**Ysgolion**
Mae'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn benodol y cyfle i gynnig cyfleoedd dysgu mwy unigoledig a theilwra'r hyn a gynigir, yn cefnogi arweinwyr ein hysgolion i sicrhau mwy o degwch a chynhwysiant i bob un o'n dysgwyr, gan gynnwys y rhain hynny ag anableddau.

Mae canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth gynnig addysg eang a chytbwys i bob dysgwr. Maent yn herio ysgolion i ddewis y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd fwyaf addas i gefnogi eu dysgwyr, gan godi disgwyliadau. Dylai profiadau dysgu o ansawdd uchel hybu annibyniaeth y dysgwyr, eu herio a chynnig cyfle iddynt lwyddo ar hyd eu taith ddysgu. Dylai'r profiadau hyn barchu a gwerthfawrogi natur unigryw pob dysgwr.

Mae Gyrfa Cymru yn dod ag ysgolion a busnesau ynghyd, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u cyfleoedd gyrfa, eu hysbrydoli a'u cymell. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig y canlynol:

- Ymgyrch Partneriaid Gwerthfawr sy'n cydnabod cydberthnasau cynaliadwy rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth ychwanegol i helpu i gynnal a chryfhau cydberthnasau ac mae wedi ehangu'r ymgyrch i gynnwys trefniadau cydweithio rhwng athrawon a chyflogwyr, er mwyn helpu athrawon i feithrin dealltwriaeth well o'r byd gwaith sydd ohoni.
- Hyd at chwe gweithgaredd wedi'u harwain gan gyflogwyr ym mhob ysgol uwchradd, uned cyfeirio disgyblion ac ysgol arbennig. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwrpasol ac yn seiliedig ar ddata Career Check, gwybodaeth am y farchnad lafur ac anghenion yr ysgol. Maent yn cynnwys digwyddiadau ag un cyflogwr (cyflwyniadau, ymweliadau safle, ffug-gyfweliadau ac ati), digwyddiadau â sawl cyflogwr (rhwydweithio cyflym a diwrnodau carwsél), a mewnbwn penodol i gyfoethogi'r cwricwlwm.

- Datblygu naw her wedi'u harwain gan gyflogwyr ac yn seiliedig ar y sector i ymgorffori addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn partneriaeth â: Vishay (Lled-ddargludyddion cyfansawdd) ac Ysgol Gyfun Bryn Celynnog, Toyota (Uwch-weithgynhyrchu) ac Ysgol Treffynnon, a Banc Starling (Technoleg ariannol) ac Ysgol Gyfun Llangatwg. Mae'r heriau hyn wrthi'n cael eu treialu cyn eu cynnig i ysgolion eraill yn 2025. Bwriedir cynnal heriau eraill gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru Celtic Group, Bragdy Drop Bear a RWE Renewables.
- Ffeiriau gyrfaoedd rhanbarthol Beth Nesaf? i ddysgwyr ag ADY,
- Mynediad at lyfrgell gynhwysfawr o fideos gan gyflogwyr.
- Helpu ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr.
- Rhaglen Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra.
- Syniadau Mawr Cymru, sy'n cynnwys her fenter genedlaethol mewn ysgolion cynradd ac o leiaf 1,000 o weithdai model rôl gydag entrepreneuriaid mewn ysgolion uwchradd bob blwyddyn. Arweinir y gweithgaredd gan rwydwaith o fwy na 400 o entrepreneuriaid, neu Fodelau Rôl, sy'n rhannu eu profiadau busnes a'u taith bersonol fel entrepreneuriaid ac yn dod â meysydd o'r cwricwlwm yn fyw. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys entrepreneuriaid anabl, fel Mark Williams o Limb-art yng Ngogledd Cymru, i ysbrydoli'r dysgwyr a rhannu eu profiadau bywyd.
- Y prosiect cyn-fyfyrwyr.

Ym mis Hydref 2024, lansiodd Gyrfa Cymru Bluestone ar ei hadnodd Crefft Gyrfaoedd. Gall dysgwyr bellach archwilio'r amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael ym maes twristiaeth a lletygarwch. O achubwyr bywydau i gogyddion, cynorthwywyr sba a ffotograffwyr, gall dysgwyr bellach archwilio'r rolau ac ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar eu cyfer a sut y gellir trosglwyddo'r sgiliau hyn o un yrfa i'r llall.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn helpu cyflogwyr i ymgysylltu ag ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad pwrpasol ar weithio ym maes addysg a sut i ddylunio eu mewnbwn, gyda chyfleoedd hyfforddiant os oes angen.
- Adran benodol ar ein gwefan sy'n llawn gwybodaeth i gyflogwyr.
- Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr blynyddol i gydnabod a hyrwyddo cyfraniadau cyflogwyr.

**Data**

Mae'r holl ddata cyhoeddedig sydd ar gael wedi'i ddarparu yn ein hymateb. I grynhoi'r rhan hon, wrth ddarparu cymorth i ysgolion, mae Gyrfa Cymru wedi cynnal dros 1,500 o sesiynau i fwy na 26,000 o ddysgwyr, a thros 1,000 o ddigwyddiadau â chyflogwyr. Yn ychwanegol, mae Syniadau Mawr Cymru yn cynnwys her fenter genedlaethol mewn ysgolion cynradd ac o leiaf 1,000 o weithdai model rôl gydag entrepreneuriaid mewn ysgolion uwchradd bob blwyddyn.

**Addysg Bellach (AB)**

Mae Hyrwyddwyr Menter sy'n gweithio yn y Biwroau Cyflogaeth a Menter ym mhob coleg addysg bellach yng Nghymru wedi'u hariannu i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth fel dewis gyrfa, cynnig cyfleoedd i ddysgu ac ymarfer sgiliau entrepreneuriaeth ac archwilio hunangyflogaeth fel dewis gyrfa, gan gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd am ddod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes i wneud hynny. Mae'r cyfrifoldeb am y Biwroau wedi cael ei drosglwyddo i Medr ym mis Awst 2024. Mae'r Hyrwyddwyr Menter yn gweithio ar draws y garfan o fyfyrwyr gan sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu cael gafael ar gymorth ac arweiniad drwy dargedu cyrsiau sydd â mwy o fyfyrwyr anabl, gan ymateb pan fydd tiwtor wedi gofyn am gymorth penodol ar gyfer myfyriwr neu grŵp o fyfyrwyr a hyrwyddo cyflawniadau myfyrwyr anabl.

*Biwroau Cyflogaeth a Menter*

Amcanion allweddol y Biwroau yw cynnig gwasanaeth recriwtio i gyflogwyr lleol a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr mewn colegau gael gwaith a mynd yn hunangyflogedig.

Mae'r cyllid yn cefnogi costau hyrwyddwr entrepreneuriaeth i wneud y canlynol:

- gweithio gyda dysgwyr (a'r rhai sy'n gadael y sefydliad) i hyrwyddo entrepreneuriaeth a helpu staff i ymgorffori entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm;
- darparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr a phobl sy'n gadael y sefydliad i ddatblygu eu syniadau entrepreneuriaeth a'u gwybodaeth am fusnes, a gwella'r llwybrau a'u cefnogi i hunangyflogaeth a chychwyn busnes.

Ac mae'r Biwroau Cyflogaeth a Menter yn gwneud y canlynol:

- helpu cyflogwyr i gysylltu â myfyrwyr a datblygu gweithlu'r dyfodol;

- darparu pecyn o gyfleoedd i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser i feithrin sgiliau cyflogadwyedd a menter hanfodol. Mae'r Biwroau'n rhan o Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru - ymrwymiad i roi cymorth i bawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, cael gwaith neu fynd yn hunangyflogedig;

- mae'r Biwroau hynny sy'n gweithredu yn y Coleg Addysg Bellach yng Nghymru, yn gwahodd cyflogwyr i gysylltu â nhw i gwrdd â myfyrwyr a thrafod cyfleoedd cyflogaeth a allai fod ganddynt yn eu sefydliadau;

- mae pob Biwro yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fyfyrwyr yn eu coleg ond maen nhw hefyd yn helpu i feithrin cyfleoedd parhaus ar y cyd â chyflogwyr yn eu rhanbarth..

**Addysg Uwch (AU)**

Mae prifysgolion yn parhau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n cynnwys myfyrwyr anabl. Fel y nodir yn y cylchlythyr  Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr: Cynlluniau Cyflawni a Dyraniadau, roedd £2m ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Mae hyn yn adeiladu ar y gweithgareddau a gyflanwyd ym mlwyddyn academaidd 2022/23 yn erbyn Cylchlythyr W22/21HE.

Er bod gan brifysgolion hyblygrwydd i adeiladu eu darpariaeth a'u cynnig i ddiwallu anghenion eu myfyrwyr orau y gallent, disgwylir i'r cymorth gynnwys:
- mentora;
- darparu amrywiaeth o weithgareddau cyflogadwyedd ar y cyd, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth;
- cyfeirio / cefnogi mynediad at gyflogadwyedd craidd pob prifysgol;
- arweiniad gyrfaoedd, darpariaeth ar gyfer menter a lles;
- darparu cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd a/neu brofiad gwaith i sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr rhag elwa ar y cymorth;
- profiad gwaith, o wahanol hyd a fformat.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol er mwyn helpu pob sefydliad AU yng Nghymru i hyrwyddo entrepreneuriaeth, cysylltu ag entrepreneuriaid, a chefnogi entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr a graddedigion.  Maent yn helpu graddedigion i symud ymlaen i entrepreneuriaeth a dechrau busnes;  ac mae pob un ohonynt yn cyhoeddi adroddiad effaith bob blwyddyn.

5. *Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dysgwyr anabl yn cael yr hyblygrwydd a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i gael mynediad i addysg bellach? Beth yw eich disgwyliadau o sut mae AB, AU a'u hadrannau gyrfaoedd yn cefnogi dysgwyr anabl ymlaen i interniaethau a phrentisiaethau? A sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn hyn o beth?*

Mae gan bob coleg a phrifysgol gynlluniau cydraddoldeb ar waith ac maent yn gweithio ar y cyd i gyflawni eu hymrwymiadau, gan gynnwys hyrwyddo mynediad teg a chyfle cyfartal. Mae Medr yn adolygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys y nodwedd warchodedig anabledd.

Mae'r colegau'n cydweithio ledled Cymru i gyflawni eu hymrwymiadau cydraddoldeb. Maent yn mynychu Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Addysg Bellch ColegauCymru.

Mae'r rhwydwaith hwn yn ystyried materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn adrodd i Fforwm y Penaethiaid ar gamau gweithredu i sicrhau cynnydd.

Mae'r prifysgolion yn gweithio ar y cyd i gyflawni ymrwymiadau cydraddoldeb, gan gynnwys ehangu mynediad i bobl heg gynrychiolaeth ddigonol, a nodi bylchau cydraddoldeb mewn cyrhaeddiad. Mae ganddynt rwydweithiau cefnogol ac Arweinwyr Cydraddoldeb ar waith i gefnogi a monitro cynnydd.

**Addysg Bellach**

Ym mis Awst 2024, cyhoeddwyd Canllawiau Cymorth Ychwanegol i ddarparwyr addysg bellach i'w helpu i weithio mewn modd hyblyg a sicrhau cymorth i gynnig darpariaeth hygyrch i ddysgwyr. Maent hefyd yn helpu gyda chostau gwneud addasiadau rhesymol i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Caiff gweithgareddau mewn colegau eu cynnal yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n cynnwys:

- Digwyddiadau a Ffeiriau Gyrfaoedd Pwrpasol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu oriau tawel i'r rhai sy'n dod i brif ddigwyddiadau.
- Cynnig hyfforddiant dwys i fyfyrwyr ag anableddau.
- Adnoddau a sesiynau wedi'u teilwra fel y bo'n briodol, a sesiynau gwybodaeth ar hawliau anabledd ac addasiadau yn y gweithle.
- Mae cyflogwyr sy'n hysbysebu drwy golegau yn ymrwymedig i ddilyn y Polisi Gwaith Teg yng Nghymru.
- Gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi a hwyluso mentrau recriwtio cynhwysol.
- Gweithio'n benodol gyda Chyflogwyr Hyderus o ran Anabledd i greu lleoliadau i fyfyrwyr ag anableddau, gan sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried.

Mae enghreifftiau penodol o weithgareddau yn cynnwys:

- Cefnogodd Grŵp Llandrillo Menai 31 o unigolion ag anabledd i ddechrau prentisiaeth drwy gynnig cymorth ychwanegol i gefnogi cyflogwyr i ddileu rhwystrau i ddysgwyr yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd.
- Estynnodd Coleg y Cymoedd wahoddiad i sefydliadau Hyderus o ran Anabledd arddangos a chynnig gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ei ffair gyrfaoedd flynyddol, gan gynnwys sefydliadau megis Drive, Maximus a ‘Project SEARCH’ PHS, sef interniaeth â chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc 18-24 oed ag ADY a/neu Awtistiaeth.
- Mae Coleg Merthyr Tudful yn cefnogi dysgwyr Rhaglen Interniaeth â Sgiliau Byw'n Annibynnol, lle maent yn cael y cyfle i ddilyn interniaethau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.
- Mae Coleg Merthyr Tudful hefyd yn gweithio'n agos gyda Maximus er mwyn helpu dysgwyr ag ADY i symud ymlaen i fyd gwaith. Mae Maximus yn cefnogi dysgwyr drwy fynd i ddigwyddiadau Gyrfaoedd ac ADY lle maent yn cynnig cymorth ac adnoddau wedi'u teilwra i helpu i ddod o hyd i waith.

**Addysg Uwch**

Mae prifysgolion yn canolbwyntio ar ymgorffori cyflogadwyedd yn y cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Mae adrannau gyrfaoedd yn gweithio gyda myfyrwyr anabl i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor priodol i gyflawni deilliannau llwyddiannus yn unol â'u cynlluniau gyrfa pan fyddant yn graddio, gan gynnwys cyflogaeth, ineterniaethau, hunangyflogaeth a/neu astudiaethau pellach.

Mae prifysgolion hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i gynnig ymyriadau wedi'u targedu i'w myfyrwyr anabl i ddiwallu eu hanghenion o ran gyrfa a chyflogadwyedd.

Mae cyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr gan Medr yn galluogi prifysgolion i gynnig cymorth wedi'i deilwra, gan gynnwys profiad gwaith, i'r rheini o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys myfyrwyr anabl, er mwyn gwella eu cyflogadwyedd a'u helpu i sicrhau gweithgarwch ar lefel gradd pan fyddant yn gadael addysg uwch, a'i gynnal. Mae hyn wedi cynnwys yr e-Hwb Cyflogadwyedd – adnodd i fyfyrwyr sy'n dymuno gweithio yng Nghymru. Mae wedi ymrwymo i helpu myfyrwyr ar hyd eu llwybr personol i lwyddiant, ac mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr gan gynnwys:

- profiad gwaith,
- hyfforddiant ar yrfaoedd,
- rhaglenni datblygu sgiliau,
- cysylltiad uniongyrchol â chyflogwyr.

Mae'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach yn bartneriaeth rhwng addysg bellach, addysg uwch a phartneriaid addysgol eraill sy'n gweithio ar y cyd i ehangu mynediad at bob math o addysg uwch, er mwyn annog dysgwyr mewn ysgolion a cholegau i ystyried y dyfodol a'u dyheadau addysg, yn ogystal â datblygu sgiliau academaidd a mentora.

Fe'i hariennir gan Medr, ac mae'n cynnwys pob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Maent hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cyflogwyr, ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector i wella canlyniadau addysg dysgwyr.
Mae'n rhaglen rhanbarthol ar gyfer y tymor hir i ehangu'r mynediad i addysg uwch ac i sgiliau lefel uwch. Ei nod yw cynyddu'r nifer o bobl sy'n dechrau rhaglen addysg uwch o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys myfyrwyr anabl, trwy godi dyheadau a datblygu sgiliau addysgol a chreu cyfleoedd astudio arloesol a llwybrau dysgu i addysg uwch.

**Medr**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb Medr yn ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n helpu i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol integredig a theg, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyfle cyfartal.

Bwriad eu Cynllun Strategol yw pennu cyfeiriad a rhoi ymdeimlad o flaenoriaeth – a bydd yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredol, a ddatblygwyd gan Medr, a fydd yn darparu mwy o fanylion am fonitro cynnydd a sicrhau bod ffrydiau gwaith unigol yn cael eu darparu.

**Prentisiaethau**

Ers mis Medi 2024, mae Gyrfa Cymru wedi cynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd i bob person ifanc yng nghyfnod allweddol 4 cyn iddo adael addysg statudol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth ddiduedd am yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt o ran eu llwybr yn y dyfodol, gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau a rhaglen Twf Swyddi Cymru+, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu camau nesaf. I'r rheini mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau, bydd Gyrfa Cymru yn trafod yr amser gorau i ddechrau gweithio gyda pherson ifanc. I rai, bydd hyn ym Mlwyddyn 9 oherwydd mae'n bosibl y bydd angen iddynt dreulio cryn dipyn o amser yn gweithio gyda chynghorydd, ond i eraill, gall fod yn hwyrach yn eu haddysg.

Caiff cymorth a chyngor ar yrfaoedd eu teilwra at anghenion unigolyn, ond gallent gynnwys:

- Cymorth i feithrin sgiliau rheoli gyrfa, megis sgiliau cynllunio a gwneud penderfyniadau
- Arweiniad i helpu person ifanc i nodi pa fath o waith y byddai'n hoffi ei wneud a sut y gallai gyrraedd y nod
- Cymorth ymarferol i sicrhau bod person ifanc yn pontio'n dda o'r ysgol
- Cyfeirio/atgyfeirio at asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau cymorth ychwanegol
- Eirioli ar ran unigolyn
- Negodi â darparwyr ar ran unigolyn
- Amlinellu opsiynau i rieni

I bob person ifanc yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi nodi ei fod yn bwriadu gadael yr ysgol ac yn awyddus i ymuno â'r farchnad lafur, mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth dilynol parhaus a all gynnwys helpu gyda sgiliau cyfweliad/ceisiadau.

Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2024, cynhaliodd Gyrfa Cymru 41,000 o gyfweliadau cyfarwyddwyd â mwy na 30,000 o ddysgwyr, gan gynnwys 34,460 o gyfweliadau cyfarwyddyd â 25,244 o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, 52% o ddysgwyr ym Mlwyddyn 11, a 2,621 o gyfweliadau â 1,945 o ddysgwyr ag ADY.

Rydym yn gweithio i gynyddu amrywiaeth mewn prentisiaethau a hyrwyddo symudedd cymdeithasol fel buddsoddiad mewn llwyddiant economaidd a thwf parhaus. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol wedi helpu i gynyddu nifer y prentisiaid anabl.
Yn 2022/23, roedd 11.6% o'r holl ddysgwyr a ddechreuodd raglenni dysgu prentisiaeth yn ddysgwyr a oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd a/neu anabledd dysgu, o gymharu â 5.7% ym mlwyddyn academaidd 2016-17.

Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr hefyd yn annog cyflogwyr i recriwtio pobl anabl drwy gynnig cymhellion ariannol a chymorth yn y gwaith ar gyfer y garfan hon i'w galluogi i gwblhau eu prentisiaeth yn llwyddiannus.

Mae Prentisiaethau a Rennir â Chymorth yn cynnig cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl ag anghenion dysgu a chyflogaeth dwys ac amrywiol. Gall y cymorth gael ei ddarparu drwy hyfforddwyr swyddi neu adnodd arbenigol arall.

Rydym hefyd wedi cytuno i addasu Manyleb Safonau Prentisiaeth Cymru yn ddiweddar. Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys ehangu'r gofynion mynediad o ran sgiliau sylfaenol ar gyfer lefel 2 a lefel 3 i gynnwys pobl ag anableddau ac anawsterau dysgu Bydd hyn yn creu cynnig mwy cynhwysol ac yn cynyddu nifer y cyfranogwyr drwy alluogi pobl anabl i fanteisio ar y rhaglen prentisiaethau.

O ran ymgysylltu, mae Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn gweithio tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Prif Weinidog Cymru sy'n berthnasol i bob portffolio. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chyd-Weinidogion, er mwyn rhoi gwybod iddynt am feysydd o gydgyfrifoldeb trawsbynciol. Mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar feysydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Disgwylir hefyd i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru gydweithio'n agos i nodi bylchau mewn darpariaeth a mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

6. *Beth yw goblygiadau ddeddfwriaeth a chanllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol cymharol newydd, os o gwbl, ar gyngor a chymorth gyrfaoedd i bobl ifanc anabl?*

Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi creu system unedig i blant a phobl ifanc 0-25 oed gyda Chynllun Datblygu Unigol sy'n dilyn plentyn a pherson drwy bob cam o'i addysg. O fis Medi 2025, bydd gan bob person anabl ag ADY Gynllun Datblygu Unigol. Mae Gyrfa Cymru wedi adolygu ac ailgysoni ei chymorth a'i chyngor ar yrfaoedd yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd.

Mae Gyrfa Cymru wedi nodi cynnig clir ochr yn ochr â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith, ac mae wedi rhannu'r cynnig hwnnw ag ysgolion a theuluoedd. Mae gan bob person ifanc yr hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddwyd ynghylch gyrfaoedd gan Gyrfa Cymru, a hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn, dros fideo, ac yn ddigidol. Mae gan Gyrfa Cymru hefyd dîm o gynghorwyr ADY sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau. Mae pob cynghorydd gyrfaoedd yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol, a gwybod sut i roi eu cynlluniau ar waith. Gall y gwaith hwn ddechrau'n gynt na Blwyddyn 11 pan fydd hynny'n briodol.

I bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY, mae Gyrfa Cymru yn cynnig bod yn rhan o adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol ac mae wedi nodi'r rhai sy'n gadael yr ysgol i ymuno â'r farchnad lafur fel grŵp a blaenoriaeth. Yn ystod yr adolygiadau hynny, gall Gyrfa Cymru gyfrannu at elfen bontio'r Cynllun Datblygu Unigol, eirioli ar ran y person ifanc a rhoi gwybod i'w rieni am y cyfleoedd sydd ar gael. Y flwyddyn hon, gan fod pobl ifanc â Chynlluniau Datblygu Unigol bellach yn y coleg, mae Gyrfa Cymru hefyd wedi cynnig bod yn rhan o adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol mewn colegau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y coleg i ymuno â'r farchnad lafur.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cynhaliodd Gyrfa Cymru 1,445 o gyfweliadau â dysgwyr ag ADY ym mhob grŵp blwyddyn a lleoliad (43 yn CA3, 117 yn CA4, 249 mewn addysg ôl-16, 131 mewn AB). Wrth symud tuag at roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn llawn, mae nifer y cyfweliadau a gynhelir yn cynyddu wrth i'r ffocws ar gyfer gwaith Gyrfa Cymru symud oddi ar Gynlluniau Dysgu a Datblygu a cheisiadau am gyllid tuag at wneud mwy o waith uniongyrchol gyda phobl ifanc. Cymerodd Gyrfa Cymru hefyd ran mewn 218 o adolygiadau o ADY, yn ogystal â chynnal bron 5,000 o ryngweithiadau eirioli a chydgysylltu ar ran pobl ifanc.

7. *Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech dynnu ein sylw ati o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i fyd gwaith i bobl anabl?*

**Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol**

Mae mynd ar drywydd argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaeth ac adroddiad Pontio i Fyd Gwaith yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau adroddiad yn amlinellu lle y gellid gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob dysgwr yn pontio'n fwy didrafferth o'r ysgol i fyd gwaith, gan gynnwys pobl anabl.

Ers haf 2024, rydym wedi creu gweithgorau mewnol ac allanol bach (Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr hyd yma – gyda'r nod o ehangu'r aelodaeth yn ôl yr angen) i edrych yn fanwl ar yr argymhellion ac ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r sector. Bydd y gweithgorau yn allweddol i oruchwylio'r broses o roi'r argymhellion a amlinellir yn y ddau adroddiad ar waith.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o gyd-ddibyniaethau yn gysylltiedig â rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r gydberthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr yn bwysig iawn yn hyn o beth.

Mae'r Canllawiau ar Ddysgu 14 i 16, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, yn nodi ein polisi ar gyfer dysgu ac addysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11, ochr yn ochr â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgolion a fydd yn rhan o ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Nod y canllawiau yw helpu ysgolion i ddylunio eu cwricwlwm i ddysgwyr 14 i 16, y bydd angen iddo fod ar waith erbyn mis Medi 2025.
Mae pwysigrwydd blynyddoedd 10 ac 11 yn nhaith addysg dysgwyr yn hysbys, yn enwedig y ffordd y mae eu dewisiadau a'u cyflawniadau yn gallu dylanwadu ar eu llwybrau yn y dyfodol. Felly, mae'r canllawiau yn cyflwyno'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 (‘yr Hawl i Ddysgwyr’): y dysgu y bydd pawb ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn ei gyflawni o dan y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal â chynnig eang o gymwysterau, mae'r hawl hefyd yn cynnwys sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth i ddeall ei gryfderau a'i ddiddordebau, ac i gynllunio ei gamau nesaf pan fydd yn gadael addysg orfodol yn 16 oed, er mwyn ei helpu yn ystod y cyfnod pwysig hwn.

Drwy'r canllawiau, gwnaethom nodi ein disgwyliadau cenedlaethol clir er mwyn helpu i sicrhau cwricwlwm cyson a theg i ddysgwyr ledled Cymru, gyda phob ysgol yn gwerthfawrogi'r un pethau sy'n cyfrannu at gynnydd dysgwr a'i allu i symud ymlaen yn llwyddiannus.

Mae'r dysgwr wrth wraidd y canllawiau ar ddysgu 14 i 16, sy'n rhan o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, a cheir ffocws clir ar gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd ac i ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau sydd ar gael iddo ar ôl gadael addysg orfodol yn 16 oed.

**Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl**

Un o amcanion strategol yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yw gweithio gydag arweinwyr polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i gyfrannu gwybodaeth a phrofiadau bywyd i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau ehangach Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar gyflogaeth pobl anabl. Mae'r hyrwyddwyr yn gwneud hyn drwy gefnogi gwaith Bwrdd y Warant i Bobl Ifanc a'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi meithrin cydberthynas waith effeithiol â Gyrfa Cymru ac yn 2025, bydd yn archwilio cyfleoedd i weithio'n agosach gyda Medr.

**Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru**

Mae ein prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig rhaglen o weithgareddau sy'n gysylltiedig â Chystadlaethau Sgiliau sy'n codi ymwybyddiaeth o addysg alwedigaethol a llwybrau hyfforddiant a gyrfa.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a hwyluso dulliau ymgysylltu a chydweithio rhwng ysgolion, dysgwyr a chyflogwyr er mwyn ennyn hyder a meithrin gwybodaeth am fyd gwaith, a helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfaoedd a'u dyfodol. Yn benodol, mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, prentisiaid a hyfforddeion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) herio a meincnodi eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau Sgiliau Cynhwysol / Sgiliau Sylfaenol, yn lleol ac yn genedlaethol ar draws amrywiaeth o sectorau.

Yng Nghymru, mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn cynnal naw cystadleuaeth Sgiliau Cynhwysol / Sgiliau Sylfaenol, o Arlwyo a'r Cyfryngau i Waith Pren a Sgiliau Byw'n Annibynnol. Ym mis Ionawr 2024, cymerodd dros 200 o ddysgwyr o bob cwr o Gymru ran yn y cystadlaethau hyn.

8. *Sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael ystod mor eang â phosibl o opsiynau ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed? Er enghraifft, rydym wedi clywed pryderon am 'ymyl dibyn' sy'n wynebu pobl anabl wrth gael mynediad i leoliadau a chynlluniau penodol â chyfyngiad oed e.e. Twf Swyddi Cymru? Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ehangu mynediad i bobl anabl o bob oed?*

Fel y nodwyd eisoes, mewn ymateb i gwestiwn 5, mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gweithio'n agos â'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Disgwylir hefyd i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru weithio'n agos â'i gilydd i nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â nodi'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gobeithio bod hyn wedi'i adlewyrchu yn natur drawsbynciol y gwaith sy'n cael ei wneud, fel y nodir yn yr ymatebion i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd.

**Twf Swyddi Cymru+**

Cafodd rhaglen Twf Swyddi Cymru+ ei chaffael yn wreiddiol yn 2021, a'r ystod oedran a nodwyd yn y dogfennau tendro oedd 16-18. O ganlyniad i effeithiau'r pandemig, cafodd yr ystod oedran ei hymestyn i alluogi pobl ifanc 19 oed i fanteisio ar y rhaglen hefyd. Fodd bynnag, ni ellir newid yr ystod oedran ymhellach gan y byddai hyn yn newid yr hyn a gynigir, a allai arwain at her gyfreithiol gan ddarpar gyflenwyr.

Bydd unrhyw raglen a roddir ar waith o 2027 ymlaen yn ystyried enghreifftiau o arferion gorau ac yn elwa ar wersi a ddysgwyd wrth ddarparu'r cymorth cyflogadwyedd presennol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer carfanau penodol, er enghraifft y cymorth sydd ei angen ar bobl anabl.

Fel rhan o'r rhaglen, rydym yn cyhoeddi data ar nifer y cyfranogwyr a'u cyfansoddiad, gan gynnwys y rheini ag anabledd. Gellir gweld yr wybodaeth hon drwy ddilyn y ddolen ganlynol – Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 | LLYW.CYMRU

**Yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol**

Gwnaethom gyhoeddi ein hymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol ar ddiwedd mis Ebrill 2024 ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion dysgwyr a'r economi sy'n newid.

Rydym wrthi'n trafod y ffordd orau o roi'r argymhellion hyn ar waith yn unol ag ymrwymiadau strategol cysylltiedig, gan gynnwys ein cenhadaeth economaidd, gofynion datblygu sgiliau cysylltiedig a nifer cynyddol o gyfranogwyr.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael profiad dysgu cadarnhaol, er mwyn iddo allu symud ymlaen yn hyderus i'w gamau nesaf mewn addysg a/neu gyflogaeth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru i bennu'r ffordd orau o sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd ynghylch gyrfaoedd ar gamau pontio allweddol; gan wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r holl lwybrau sydd ar gael, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu.

At hynny, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio i dreialu mapiau trywydd ar gyfer meysydd galwedigaethol. Pan fydd canfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u hystyried, y gobaith yw y bydd y mapiau trywydd hyn yn cael eu datblygu ymhellach a'u cynnwys ar lwyfan digidol addas fel eu bod yn hygyrch i ddysgwyr a rhanddeiliaid, ac yn ennyn eu diddordeb.

**Busnes Cymru**

Mae gan Syniadau Mawr Cymru Gronfa Cymryd Rhan i gefnogi cleientiaid y mae angen help ychwanegol arnynt i fanteisio ar y cymorth busnes. Mae hyn wedi helpu gyda chostau i ddileu rhwystrau i gleientiaid, gan gynnwys gwasanaeth cyfieithu, cludiant, gofalwyr a chymorth ymarferol i fynd i ddigwyddiadau neu gyfarfodydd un i un, a chymryd rhan ynddynt.

Fel rhan o'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio, mae Busnes Cymru yn gweithio'n agos gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu ac yn ystyried anghenion pobl anabl. Mae'r Cynghorwyr Busnes yn gweithio'n agos gyda'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a'r Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yng ngwasanaeth Busnes Cymru.

Mae Busnes Cymru ac Anabledd Cymru wedi llunio canllaw arferion da i gefnogi entrepreneuriaid anabl. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor ymarferol i sefydliadau cymorth busnes a chynghorwyr ar y ffordd orau o ymgysylltu â phobl anabl sy'n dechrau eu busnes eu hunain, yn ei gynnal neu'n ei dyfu yng Nghymru, a'u cefnogi https://businesswales.gov.wales/cy/pynciau-a-chyfarwyddyd/cyflogi-pobl-a-gwella-sgiliau/cydraddoldeb/cefnogi-merched-yng-nghymru/y-canllaw-arferion-da-cefnogi-entrepreneuriaid-anabl-yng-nghymru

Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth dechrau busnes er mwyn helpu unigolion i oresgyn unrhyw rwystrau i hunangyflogaeth; ac mae'n gweithio gyda busnesau i wella arferion cyflogaeth drwy gyngor arbenigol ar gydraddoldeb ac adnoddau dynol ac yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl.

Gellir cael cymorth arbenigol i wella arferion gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, sy'n gweithio ledled Cymru ac mae'n cynnig cymorth wedi'i deilwra at anghenon y cleient ar ffurf sesiynau un i un neu gyfarfodydd staff. Mae hyn yn rhan o wasanaeth cynghori ehangach ar gyflogaeth, sgiliau a gwaith teg, sy'n cynnwys ysgogi prosesau creu swyddi a gwella polisïau ac arferion cyflogaeth mewn perthynas ag ymgyrchoedd recriwtio a chadw cynhwysol, gan annog busnesau i adolygu'r adduned cydraddoldeb a chynlluniau ehangach megis Hyderus o ran Anabledd.

Rydym hefyd yn darparu cyllid i Cwmnïau Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu cymorth busnes arbenigol pwrpasol i fentrau cymdeithasol. Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn cefnogi mentrau cymdeithasol sy'n helpu a/neu'n cyflogi pobl ag anableddau ac mae'n cynnig gwasanaeth hunangyflogaeth a hunangyflogaeth â chymorth sy'n cynnwys cymorth ychwanegol i bobl sy'n byw gyda chyflyrau niwroamrywiol. Mae'r pecyn cymorth yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan bobl ledled Cymru a gwella eu bywydau.

Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo cyfleoedd hunangyflogaeth a chyflogaeth i bobl anabl drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau a sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chymorth cynghori Busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ac arweiniad ar wefan Busnes Cymru ar gefnogi pobl anabl yn y gweithlu Cyflogaeth Pobl Anabl | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru). Mae'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl wedi dechrau prosiect yn ddiweddar i adolygu a diweddaru'r holl gynnwys ar-lein, a bydd cynnwys diwygiedig yn cael ei gyhoeddi drwy gydol 2025.

Mae Busnes Cymru wedi datblygu modiwl ar-lein er mwyn helpu cyflogwyr i ddysgu mwy am y model cymdeithasol o anabledd *Cwrs: Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (llyw.cymru)* Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu'r hyfforddiant hwn i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus.

*Casgliad*
Rydym yn gobeithio ein bod wedi rhoi ymateb cynhwysfawr i'r ymholiadau a amlinellwyd yn eich llythyr ac wedi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pob dysgwyr, yn enwedig y rheini ag anabledd.
Yn ei dro, byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc Ac Addysg; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



**Vikki Howells AS/MS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

Eitem 2.7

Mr. Andrew R.T. Davies
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig y Senedd
Llywodraeth Cymru
Bae CaerdyddCF99 1NA

Drwy e-bost at: SeneddEconomy@senedd.wales

24 Ionawr 2025

Annwyl Mr. Davies,

A gaf i achub ar y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar eich penodiad diweddar fel Cadeirydd Pwyllgor Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig y Senedd.

Rwy'n ysgrifennu heddiw gydag ymatebion i'r cwestiynau atodol y gofynnodd y pwyllgor amdanynt mewn perthynas â'r Craffu Blynyddol ar Fanc Datblygu Cymru a gynhaliwyd yn y Senedd ar 20 Tachwedd 2024.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



**Giles Thorley**

**Prif Weithredwr.**

**Banc Datblygu Cymru** **Ccc**
Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL
info@developmentbank.cymru | Banc Datblygu.Cymru

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Banc Datblygu Cymru Plc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf DBW. Mae Banc Datblygu Cymru Plc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru Plc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all yr un o endidau'r grŵp dderbyn adneuon gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru Plc i'w gweld yn www.developmentbank.wales



Banc Datblygu Cymru Plc - Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan rif 4055414 yn Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL.

**Mae Adroddiad Blynyddol Banc Datblygu Cymru yn dangos bod 76% o'r swyddi a grëwyd gan y Banc yn 2023-24 yn ganolrif i swyddi cyflog uchel, ac mae'r gyfran hon yn codi i 90% wrth edrych ar fuddsoddiadau ecwiti yn unig. Sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i arwain buddsoddiadau yn y flwyddyn gyfredol?**

Isod mae cymhariaeth o'r data ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

| Blwyddyn adroddiad effaith | Sampl llawn | Sampl buddsoddi ecwiti |
|---|---|---|
| 2023/24 | 76% | 90% |
| 2022/23 | 62% | 96% |

Er mwyn dehongli'r mesurau a adroddwyd, mae'n bwysig ystyried y data sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad effaith ochr yn ochr â'n dogfen datgelu data effaith. Mae'r ddogfen hon yn esbonio'n fanylach sut mae'r ffigurau a adroddir yn flynyddol yn deillio, yn benodol bod y data'n cael ei gasglu ar sail sampl ac nad yw'n cynrychioli dadansoddiad o swyddi o ganlyniad i weithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Trafodwyd y pwnc hwn hefyd ym mis Mawrth craffu blynyddol 2023.

Nid yw'r metrigau hyn yn ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein gweithgaredd, ac mae'r adrodd mewn unrhyw flwyddyn benodol wedi'i siapio'n drwm gan y farchnad, proffiliau buddsoddi'r gronfa unigol a pha mor hir y mae busnes adrodd wedi bod yn gwsmer. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r data i lywio polisïau buddsoddi a chynlluniau gweithredu; Hyrwyddo arfer gorau ac ychwanegu gwerth lle bynnag y bo modd.

Enillion effaith yw'r canlyniadau a wireddwyd yn y blynyddoedd yn dilyn buddsoddiad yn hytrach na'u cipio ar adeg buddsoddi. Nid ydynt yn pennu buddsoddiadau unigol a wneir (mae'r rhain yn seiliedig ar baramedrau cronfeydd, cymhwysedd a hyfywedd), a'n barn ni yw na fyddem yn gwrthod nac yn cymeradwyo busnes ar gyfer buddsoddi yn unig ar y potensial ar gyfer DPA ehangach. Fodd bynnag, mae'r ffurflenni'n llunio ein strategaeth o ran codi arian, datblygu busnes, allgymorth, nawdd, marchnata a chyfathrebu.

Fel y dangosir yn y tabl uchod ac a nodwyd gan y pwyllgor, mae cwmnïau sy'n derbyn buddsoddiad ecwiti yn adrodd am gyfran uwch o swyddi canolrif i gyflogau uchel. Mae gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill i sicrhau bod y cynnyrch hwn ar gael i fusnesau sydd â'r potensial i dyfu a chreu'r niferoedd uwch hynny o swyddi sy'n talu'n dda yn rhan greiddiol o strategaeth hirdymor y Banc Datblygu.

**Cynyddodd tâl blynyddol y cyfarwyddwr ar y cyflogau uchaf 20% rhwng 2023 a 2024, gan godi o £217,000 i £260,000. Sut penderfynwyd ar raddfa'r cynnydd hwn, ac i ba raddau y mae'n uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad y Banc?**

Mae cydnabyddiaeth ariannol yn y Banc Datblygu yn seiliedig ar bedair elfen:

- Cyflog sylfaenol sydd wedi'i feincnodi'n allanol gan drydydd parti bob tair blynedd
- Cynyddu costau byw blynyddol cyfunol sy'n seiliedig ar berfformiad
- Cymhellion perfformiad heb eu cydgrynhoi sy'n seiliedig ar berfformiad
- Pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio drwy Legal and General

Ar gyfer nifer cyfyngedig o uwch weithredwyr, mae taliadau cymhelliant yn cynnwys perfformiad yn ystod y flwyddyn a chymhellion gohiriedig tymor hir, yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol sy'n ddull safonol o iawndal yn y sector gwasanaethau ariannol, a gynlluniwyd i gynnal ffocws ar berfformiad cyffredinol y gronfa a denu a chadw talent uwch. Yn 2023/24 cyrhaeddodd y Banc Datblygu flwyddyn 3 o'i gynlluniau cymhelliant gohiriedig hirdymor cyntaf sy'n pwyso cymhellion ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar berfformiad parhaus buddsoddiadau a wnaed yn 2020/21.

Cytunir ar y protocol cyflog cyffredinol gyda Llywodraeth Cymru gyda'r gweithrediad yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Taliadau'r grŵp. Mae'r pwyllgor yn adrodd ar ei weithgarwch bob blwyddyn fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (tudalen 111 yn 2023/24).

**Yn ystod y cyfarfod, buom yn trafod gwahaniaethu cyflog y Banc yn fyr, ac er i chi nodi bod cyflog a buddion y Banc yn cael eu meincnodi allanol, ni ddarparwyd ffigur clir ar gyfer y gwahaniaethol. Felly, a allwch chi egluro beth yw hyn?**

**<u>Gwahaniaeth cyflog sylfaenol 2023/24</u>**

| | |
|---|---|
| Uchaf v Isaf Lluosog | 9.07 |
| Uchaf v Cymedr Lluosog | 3.94 |
| Uchaf v Canolig Lluosog | 4.47 |

**Awgrymodd argymhelliad 11 o adroddiad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru ystyried sut y gellir casglu barn busnesau mewn ffordd gyfrinachol a/neu ddienw, gan gynnwys gan y busnesau hynny sydd naill ai heb ddefnyddio'r Banc o'r blaen, neu sydd wedi gwneud cais am gymorth ac wedi bod yn aflwyddiannus. Mewn ymateb, rydych wedi nodi eich bod wedi agor llwybr lle gall pobl e-bostio eich Cwnsler Cyffredinol yn uniongyrchol. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r llwybr hwn wrth ddrafftio ei adroddiad ac, er ei fod yn cael ei groesawu, hoffai wybod a oes unrhyw lwybrau ychwanegol yn cael eu hystyried, gan mai dyma oedd bwriad yr argymhelliad.**

Yn ogystal â'r newid a nodwyd uchod, a wnaed yn dilyn yr ymchwiliad, rydym yn cynyddu amlder ein harolygon canfyddiadau rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan drydydd parti dros annibyniaeth ac yn gofyn am farn a barn gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys:

- Busnesau sydd wedi derbyn buddsoddiad

- Busnesau nad ydynt wedi derbyn buddsoddiad
- Cyrff eiriolaeth ac aelodaeth
- Cyd-fuddsoddwyr
- Cyfryngwyr

**Roedd tystiolaeth ysgrifenedig DBW i ymchwiliad y Pwyllgor ar yr Economi Werdd yn nodi mai "Sero Net yw'r genhadaeth economaidd unigol fwyaf yng Nghymru". Pa ganran o fenthyciadau a buddsoddiadau'r Banc yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a gefnogodd y genhadaeth hon yn uniongyrchol?**

Yn 2023/24, roedd tua 17% o'r arian a fuddsoddwyd yn cefnogi busnesau i greu cyfraniad cadarnhaol tuag at uchelgais Sero Net trwy gynhyrchion gwyrdd wedi'u targedu a chronfeydd buddsoddi cyffredinol. Rydym yn disgwyl i'r ffigurau hyn gynyddu wrth i ni ymestyn ein cynnig i gefnogi blaenoriaethau polisi Sero Net Llywodraeth Cymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn gweithredu sawl cynllun wedi'u targedu i gefnogi Net Zero:

- Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd - cymell datblygwyr eiddo BBaCh i ddefnyddio dulliau mwy gwyrdd o adeiladu (lansiwyd 2022)
- Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd - cefnogi busnesau Cymru i ymgymryd â phrosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio (lansiwyd 2023)
- Cartrefi Gwyrdd Cymru - Cefnogi perchnogion tai Cymru i wella effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio eu cartrefi. (Lawnsiwyd 2024)

Hefyd, ers Ebrill 2023 mae'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru wedi cyfyngu ei gefnogaeth i gartrefi sydd â sgôr EPC o B neu uwch.

Yn ogystal â'r cynlluniau hyn wedi'u targedu, rydym yn cefnogi llawer mwy o fuddsoddiadau trwy ein cyllid cyffredinol y mae eu gweithgareddau'n cael effaith uniongyrchol ar uchelgeisiau Sero Net gan gynnwys cefnogi arloesedd a busnesau Technoleg Werdd sydd â buddsoddiad ecwiti.

Er bod hyn yn cynnwys buddsoddi mewn gweithgarwch ac arloesi Net Zero, rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r portffolio ehangach o gwsmeriaid i gefnogi eu cynllunio pontio eu hunain ac felly mae ein heffaith yn ymestyn y tu hwnt i'r buddsoddiad cychwynnol.

**Roeddech yn sôn am yr uchafswm buddsoddiad y gall y Banc ei wneud "mewn cronfa olyniaeth reoli yw £5 miliwn. A fyddech chi'n gallu rhoi mwy o fanylion i ni ynghylch sut y cafodd y terfyn hwnnw ei bennu, gan gynnwys manylion unrhyw adolygiad arfaethedig o'r terfyn ac, os caiff ei uwchraddio'n rheolaidd y dull ar gyfer hyn?**

Yr uchafswm mewn un rownd o Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru yw £3 miliwn, fodd bynnag gallwn ac rydym yn cyfuno arian o bob cronfa ac offeryn (dyled a thegwch) i ariannu trafodion mwy o hyd at £10 miliwn.

Mae'r terfyn buddsoddi o unrhyw gronfa benodol yn cael ei osod mewn perthynas ag ystod o ffactorau:

- Cyfanswm maint y gronfa
- Rhagwelir y bydd unrhyw dargedau ar gyfer nifer y busnesau y mae cronfa yn eu cefnogi
- Tystiolaeth o faint y bwlch yn y farchnad
- Arallgyfeirio priodol i reoli risg ar lefel cronfa a bodloni gofynion dychwelyd y gronfa
- Asesiad o'r bwlch yn y farchnad yn seiliedig ar ymchwil a wnaed yn ystod dylunio cronfeydd. Dangosodd y gwaith hwn fod bwlch y farchnad ar gyfer trafodion olyniaeth yn is na £10 miliwn gyda'r sector preifat yn bodloni'r gofyniad am drafodion mwy.

Mae'n werth nodi hefyd bod y Banc Datblygu yn darparu gwasanaethau rheoli a monitro benthyciadau i Lywodraeth Cymru lle mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi darparu benthyciadau i sefydliadau.

**A allech chi roi mwy o fanylion am berthynas y Banc â FW Capital, yn benodol manylion am sut mae'r gronfa yn rhyngweithio â DBW a faint o reolaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig â DBW mewn buddsoddiadau FW Capital.**

Mae FW Capital, is-gwmni i Fanc Datblygu Cymru, yn gweithredu fel rheolwr cronfa a reoleiddir gan yr FCA ar gyfer cronfeydd trydydd parti. Ar hyn o bryd mae'n rheoli dros £400 miliwn ar draws saith cronfa yng Nghymru a Lloegr, ar ran buddsoddwyr amrywiol gan gynnwys Banc Busnes Prydain, Cronfa Bensiwn Clwyd, Cronfa Bensiwn Teeside, a Phartneriaeth Menter Leol Gogledd Ddwyrain Lloegr. Mae gan y cwmni ei fwrdd ei hun, sy'n cynnwys uwch swyddogion gweithredol Banc Datblygu a chyfarwyddwyr cronfa FW Capital sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r llythyr cylch gwaith, 2021/26, para 5.2 yn nodi: "Rwy'n gwahodd DBW i weithio'n weithredol i nodi atebion sy'n creu'r potensial i gynyddu llif yr arian i Gymru - er enghraifft, datblygu ei berthynas â darparwyr buddsoddi priodol eraill fel Banc Busnes Prydain a Banc Seilwaith y DU."

Mae buddsoddiadau y tu allan i Gymru yn cael eu rheoli gan dîm dynodedig FW Capital. Yng Nghymru, mae'r cwmni'n gweithredu dwy gronfa: y segment dyled mwy o Gronfa Fuddsoddi Banc Busnes Prydain i Gymru a Chronfa Olyniaeth Reoli Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Bensiwn Clwyd. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu darparu'n weithredol gan dîm Banc Datblygu Cymru sy'n wynebu'r cwsmer, gyda FW Capital yn talu'r costau dosbarthu.

Mae'r grŵp cyfan yn elwa o gefnogaeth integredig y swyddfa gefn a rheoli, ac yn y flwyddyn ariannol hon, bydd FW Capital yn cyfrannu tua £2 filiwn tuag at gostau gweithredu'r grŵp trwy fecanwaith ailwefru. Yn ogystal, mae wedi cyfrannu £1 miliwn o elw i Gronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru, sy'n cefnogi cwmnïau sydd mewn trafferthion.

Banc

Trwy FW Capital, mae'r Banc Datblygu wedi sefydlu hanes cryf o reoli cronfeydd trydydd parti. O ystyried y risgiau o ailddosbarthu a'r cyfleoedd posibl yn y DU sy'n deillio o gyfuno cronfeydd pensiwn a chreu'r Gronfa Cyfoeth Genedlaethol, mae meddu ar gerbyd achrededig ac enw da cryf am gyflawni yn ein gosod yn dda i fod yn ystwyth mewn ymateb i unrhyw fecanweithiau cyllido newydd a chefnogi gweithgarwch craidd ymhellach yng Nghymru.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Tystiolaeth Ysgrifenedig ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

05/02/2025

**Mae'r ddogfen hon yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o graffu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

Yn y ddogfen fe welwch gyflwyniad a gwybodaeth gefndirol am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y *Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Yn Cefnogi Ffermwyr i yn Ffermio*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023; manylion y cydweithio helaeth a fu gyda rhanddeiliaid allweddol yn dilyn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad; amlinelliad byr o'r Cynllun diwygiedig arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu at ddibenion modelu, yn ogystal â'r camau nesaf.

Sylwer bod amlinelliad manylach o'r Cynllun ar gael yn unol â'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2024.

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad .......... 3**
2. **Y Cefndir .......... 4**
3. **Datblygu'r Cynllun .......... 5**
4. **Amlinelliad o'r Cynllun .......... 7**
5. **Y Camau Nesaf .......... 11**
6. **Atodiad .......... 12**

# 1. Cyflwyniad

Mae ffermio yn hanfodol i Gymru; i'n diwylliant ac i'n heconomi, ac rydym yn benderfynol o sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer ffermio yng Nghymru.

Mae cynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel yng Nghymru yn hanfodol. Yr argyfwng hinsawdd yw'r brif risg i gynhyrchu bwyd yn y tymor hir, ac mae ein hecosystemau naturiol yn darparu rhai o'r ffyrdd gorau sydd gennym o liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae ffermio'n cyfrannu at lawer mwy na dim ond y bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n hanfodol bod gennym ddiwydiant llewyrchus sy'n cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ac i sicrhau toreth o fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Ni allwn ymdrin â bwyd a'r amgylchedd ar wahân – maent yn dibynnu ar ei gilydd.

Nid yw ein huchelgais ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) i gefnogi diwydiant amaethyddol cynaliadwy a chynhyrchiol yng Nghymru wedi newid. Bydd ein cymorth ar gyfer ffermydd yn y dyfodol yn sicrhau canlyniadau lluosog ar gyfer Cymru gyfan, a byddwn yn sicrhau bod ffermwyr yn ganolog i'r cymorth hwnnw.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am weithredu yn unol ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ('y Ddeddf Amaethyddiaeth').

Maent fel a ganlyn:

• Cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy

• Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo

• Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu

• Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hybu cyfleoedd y cyhoedd i'w defnyddio ac ymgysylltu â nhw, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.

# 2. Y Cefndir

I bob pwrpas nid yw ein hegwyddor o gefnogi ffermwyr i ffermio, gan sicrhau mai'r bobl sy'n ei adnabod orau sy'n rheoli'r tir, wedi newid ers dechrau'r broses ddatblygu. Rydym wedi cynnal llawer o waith ymgysylltu â ffermwyr, cyrff amgylcheddol a rhanddeiliaid eraill i ddylunio cymorth ar gyfer ffermwyr yn y dyfodol, ac rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda ffermwyr a rhanddeiliaid allweddol i lunio'r fersiwn derfynol o'r cynllun.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth 2024 a daeth dros 12,000 o ymatebion i law. Cafodd y dadansoddiad ac ymateb y Llywodraeth eu cyhoeddi ar **11 Gorffennaf**. Er bod llawer yn derbyn fframwaith ac egwyddorion y cynllun yn gyffredinol, roedd y prif bryderon a godwyd yn gysylltiedig â'r canfyddiad bod natur y cynllun yn rhy weinyddol a'r ffaith bod y gofyniad am 10% o orchudd coed yn atal pobl rhag gwneud cais i'r cynllun.

Mae'r pryderon hyn, yn ogystal â phryderon eraill a godwyd yn ystod y broses, wedi cael eu hystyried ac wedi derbyn sylw yn ystod cyfnod dwys o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod haf 2024. Mae rhagor o fanylion ynghylch y rhain isod.

# 3. Datblygu'r Cynllun

I ymateb i'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaethom benderfynu cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 – yn dilyn Cyfnod Paratoadol yn 2025 – fel rhan o'r gwaith gwrando a phartneriaeth parhaus gyda'r diwydiant i ddatrys heriau a sicrhau bod ffermwyr yn teimlo'n hyderus ynghylch y cynllun. Mae rhagor o fanylion am y cyhoeddiad a wnaed ar 14 Mai 2024 ar gael yma.

Drwy gydol haf a hydref 2024 buom yn cynnal cyfnod dwys o ddatblygu'r cynllun gyda Grŵp Bord Gron y Gweinidog a'i is-grwpiau. Pwrpas y Grŵp Bord Gron yw datblygu ymhellach y cydweithio sydd ei angen i gwblhau'r broses o ddylunio'r Cynllun a'i roi ar waith, gan adeiladu ar y cyfnodau cyd-ddylunio ac ymgysylltu sydd eisoes wedi cael eu cynnal. Er mai Gweinidogion Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol bob amser, bydd y Grŵp Bord Gron yn gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith o lunio'r Cynllun. Mae manylion yr aelodau ar gael yn Atodiad A.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r undebau ffermio, cyrff amgylcheddol a rhanddeiliaid pwysig eraill i wneud newidiadau i'r Cynllun arfaethedig, a byddwn yn parhau i wrando ar farn rhanddeiliaid i lunio'r Cynllun fel ei fod yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer diwydiant amaethyddol bywiog a blaengar yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith y Panel Tystiolaeth ar Atafaelu Carbon a gomisiynwyd i ystyried unrhyw gynigion pellach ac amgen i sicrhau atafaelu carbon ychwanegol o fewn Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun. Cafodd eu hadroddiad crynhoi ei gyhoeddi ar 25 Tachwedd 2024.

Yn unol â'r uchelgeisiau gwreiddiol, mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei ddylunio i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, a chynnal a gwella natur ar eu fferm.

Rydym wedi gwrando ar yr adborth, a'n trafodaethau â rhanddeiliaid, ac yn seiliedig ar hyn rydym wedi newid nifer o feysydd allweddol i sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch ac yn ymarferol, gan roi cyfle i bob fferm yng Nghymru dderyn cymorth. Dyma rai enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed:

- Cael gwared ar y rheol yn y Cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol bod â 10% gorchudd coed ar bob fferm. Rydym wedi disodli'r rheol hon â Gweithred Gyffredinol ddiwygiedig ar gyfer cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd. Byddwn yn cefnogi plannu coed a chreu perthi/gwrychoedd drwy Weithredoedd Opsiynol a byddwn yn annog plannu coed a pherthi/gwrychoedd i gyrraedd targed ar draws y cynllun.
- Uno tair Gweithred, sef Iechyd Anifeiliaid, Lles a Bioddiogelwch, yn un weithred symlach fel bod eich trafodaethau â milfeddyg eich fferm yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

- Byddwn yn gwneud **taliadau yn yr Haen Gyffredinol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau),** i adlewyrchu rôl ffermwyr wrth reoli'r safleoedd pwysig hyn.
- Cynnwys hawliau pori ar dir comin o fewn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.
- Lleihau nifer y Gweithredoedd Cyffredinol o 17 i 12

# 4. Amlinelliad o'r Cynllun

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun a gynigir (2024)** ar 25 Tachwedd, ac mae'n cael ei ddefnyddio i gynnal dadansoddiad economaidd ac asesiad o'r effaith. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r cynigion yn erbyn pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r effaith, er enghraifft, ar incwm busnes fferm ar gyfer amrediad o ffermydd o wahanol fathau a meintiau, fel y gallwn ddeall beth y bydd y Cynllun yn ei olygu i ffermwyr a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid – fel sydd wedi'i gynnwys yn y **datganiad i'r wasg** – ynghylch yr Amlinelliad o'r Cynllun yn dangos y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei wneud dros haf 2024 er mwyn inni gael y canlyniadau cadarnhaol hyn sydd wedi arwain at y sefyllfa gref hon ar gyfer pawb.

Bydd y cynllun yn cefnogi pob ffermwr yng Nghymru drwy Daliad Sylfaenol Cyffredinol, ar sail cwblhau cyfres o Weithredoedd Cyffredinol. Bydd y Gweithredoedd hynny'n gyfarwydd i ffermwyr yng Nghymru, p'un a ydynt yn ffermio cig eidion, llaeth neu dir âr, ar yr ucheldir, ar yr iseldir, yn llai dwys neu'n ddwys. Maent yn weithredoedd y mae llawer o ffermwyr yn eu cyflawni eisoes o ddydd i ddydd. Ni fydd rhai gweithredoedd yn berthnasol i bob fferm - er enghraifft, ni fydd Gweithred Gyffredinol 15, iechyd a lles anifeiliaid yn berthnasol i ffermydd âr.

Er mwyn eu gwneud yn hawdd eu deall, mae'r Gweithredoedd Cyffredinol wedi cael eu rhifo yn yr un ffordd ag y maent wedi cael eu gosod yn yr ymgynghoriad, gyda 12 o Weithredoedd Cyffredinol yn hytrach nag 17. Mae'r rhain i'w gweld isod. Mae'r canlynol wedi cael eu dileu o'r rhestr o Weithredoedd Cyffredinol unigol ond maent yn parhau i fod yn rhan o Fframwaith y Cynllun:

UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth

UA6: Rheoli mawndiroedd sydd wedi'u newid yn fawr

UA10: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol

UA16: Lles eich anifeiliaid (wedi'i huno â Gweithred Gyffredinol 15)

UA17: Bioddiogelwch da ar y fferm (wedi'i huno â Gweithred Gyffredinol 15)

***Tabl 1: Teitl a disgrifiad ar gyfer pob Gweithred Gyffredinol***

| Gweithred Gyffredinol | Disgrifiad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| UA1: Meincnodi | Cynnal asesiad mesur a monitro blynyddol i wella perfformiad y busnes a'ch perfformiad amgylcheddol. |
| UA2: Datblygiad Personol Parhaus | Adeiladu ar eich sgiliau a'ch gwybodaeth bresennol drwy ddysgu parhaus mewn amrediad o bynciau. |
| UA3: Cynllunio Iechyd Pridd | Adeiladu priddoedd iach drwy brofion i helpu i gynllunio iechyd pridd |
| UA5: Rheolaeth Integredig ar Blâu | Cynnal asesiad blynyddol o'r Cynhyrchion Diogelu Planhigion a ddefnyddir, ac o'r dulliau amgen a ddefnyddir i leihau'r defnydd o gemegau. |
| UA7: Cynnal Cynefinoedd | Cynnal y cynefinoedd lled-naturiol ar eich fferm er budd da byw pori a bywyd gwyllt |
| UA8: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella | Cynyddu'r manteision i fyd natur drwy gynefinoedd cysylltiedig ac amrywiol. |
| UA9: Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig | Cefnogi gwella safleoedd dynodedig, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i roi Cynllun Rheoli gydag Atodlen Waith y cytunwyd arni ar waith. |
| UA11: Rheoli Perthi/Gwrychoedd | Cynyddu maint a thrwch perthi/gwrychoedd sy'n cael eu tocio'n rheolaidd er budd da byw, storio carbon, bioamrywiaeth a thirwedd. |
| UA12: Cynnal a Chadw Coetir | Cynnal coetiroedd sydd eisoes yn bodoli i sicrhau'r manteision gorau posibl i dda byw a natur ac ar gyfer arallgyfeirio busnesau. |
| UA13: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd | Datblygu cynllun sy'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer plannu coed ychwanegol a chreu perthi/gwrychoedd newydd ar draws eich fferm er mwyn cynnig manteision lluosog. |
| UA14: Yr Amgylchedd Hanesyddol | Diogelu a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol. |
| UA15: Iechyd a Lles Anifeiliaid | Cefnogi gwelliannau ymarferol sy'n benodol i'ch fferm i iechyd a lles eich da byw er mwyn gwella cynhyrchiant. |

**Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol**

Bydd cymorth ychwanegol i ffermwyr ar gael drwy Haenau Opsiynol a Haenau Cydweithredol y Cynllun sy'n adeiladu ar y sylfaen a ddarperir gan yr Haen Gyffredinol. Bydd y cymorth hwn yn gyfuniad o grantiau cyfalaf a refeniw, ynghyd â chyngor, arweiniad a rhannu gwybodaeth.

Bydd hyblygrwydd i ffermwyr ddewis y Gweithredoedd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i flaenoriaethu'r Gweithredoedd a fydd ar gael ar ddechrau'r Cynllun yn 2026, gyda rhagor yn cael eu cyflwyno fesul cam dros y Cyfnod Pontio rhwng 2026 a 2030.

Bydd yr amrediad o Weithredoedd Opsiynol sydd ar gael yn cynnwys, er enghraifft, Gweithredoedd ar gynhyrchiant, arferion fferm cynaliadwy, adfer cynefinoedd a chymorth grantiau bach parhaus.

Bydd Haen Gydweithredol y cynllun yn cefnogi ffermwyr i weithio gyda'i gilydd a sefydliadau eraill ar brosiectau ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar y potensial i sicrhau buddion economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhannu gwybodaeth a syniadau arloesol â ffermwyr eraill neu'r byd academaidd, neu gydweithio i wella cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol.

Bydd porwyr sy'n cymryd rhan mewn Cytundeb Tir Comin yn cael mynediad at gyllid cydweithredol o ganlyniad i'w gweithredu cadarnhaol drwy bori cyfunol – yn ogystal â chyfleoedd eraill ar gyfer gweithgareddau gwella ehangach (fel mynediad).

Defnyddir y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) i helpu i lywio'r Gweithredoedd Cydweithredol, megis creu cynefinoedd sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn ffordd gydlynol ar draws tirweddau i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl.

**Pwy sy'n gymwys**

I fod yn gymwys ar gyfer Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun, rhaid i ffermwyr fodloni'r tri maen prawf isod:

- Rhaid eu bod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau cysylltiedig ar dir amaethyddol.
- Rhaid eu bod yn meddu ar o leiaf tri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru neu'n gallu dangos mwy na 550 awr o lafur safonol.
- Rhaid mai nhw yw unig feddiannydd y tir a bod ganddynt reolaeth lwyr arno am o leiaf deg mis o'r flwyddyn galendr.

Bydd disgwyl iddynt hefyd gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol o fewn blwyddyn y Cynllun neu gyfnod perthnasol.

Newydd-ddyfodiaid a Ffermwyr Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i alluogi newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc i ymuno â'r Cynllun. Ni fydd taliadau yn seiliedig ar hawliau, cwotâu na chyfnodau cyfeirio hanesyddol, er mwyn caniatáu i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc ymuno â'r Cynllun ar yr un telerau â phob ffermwr arall.

Mae'r heriau mae newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc yn eu hwynebu y tu allan i gwmpas y Cynllun ei hun (er enghraifft mynediad cyfyngedig at dir a chyllid), ond byddwn yn parhau i weithio gyda'r

Grŵp Bord Gron a Grŵp y Swyddogion, sy'n cynnwys Ffederasiwn y Clybiau Ffermwyr Ifanc, i archwilio cyfleoedd i fynd i'r afael â'r materion ehangach hyn.

Tenantiaid

Mae'r cynllun wedi cael ei newid yn sylfaenol i ddarparu ar gyfer trefniadau tenantiaeth tymor byr a hirdymor yng Nghymru, gan eu bod yn rhan annatod o ffermio yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas y Ffermwyr Tenant i ystyried ffermwyr tenant wrth inni gwblhau manylion y Cynllun.

**Cyfraddau Talu**

Bwriad y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yw darparu lefel o sicrwydd a sefydlogrwydd i ffermwyr lle maent yn gwybod faint o incwm y gallant ei ddisgwyl bob blwyddyn. Bydd cyfle i hyn gael ei wella drwy daliadau ar gyfer Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol, gan gefnogi ffermwyr i ymgymryd â gweithredoedd mwy uchelgeisiol a chymhleth a gwobrwyo'r rhai sydd eisoes yn cyflawni gweithredoedd o'r fath.

Rydym yn gwybod y bydd angen i ffermwyr wybod beth yw manylion terfynol y cynllun a'r cyfraddau talu er mwyn iddynt benderfynu ai ymuno â'r Cynllun yw'r peth iawn i'w wneud iddyn nhw a'u busnes. Mae dadansoddiad economaidd a dadansoddiadau eraill yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gan ddefnyddio'r amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024. Er na allwn ddarparu ffigurau pendant cyn i'r gwaith hwn ddechrau, gallwn roi sicrwydd y bydd taliadau'n uwch na'r costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir, gan gynnwys gwerth cymdeithasol i gynrychioli'r manteision ehangach i'r gymdeithas sy'n deillio o gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol ac i ystyried hawliau pori tir comin.

# 5. Y Camau Nesaf

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Drwy wrando a gweithio mewn partneriaeth, rydyn ni, ynghyd â'r rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda ni, yn credu y bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud yn haws i ffermwyr gael mynediad at y Cynllun, wrth gyflawni ar yr un pryd ein hymrwymiadau i natur, yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd y cam paratoadol yn 2025 yn darparu buddsoddiadau ychwanegol ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth drwy nifer o gynlluniau, gan gynnwys Cynllun Cynefin Cymru ac estyniad i Cyswllt Ffermio i 2026, gan barhau â'r cymorth ar gyfer ffermwyr i rannu gwybodaeth ac arloesedd. Bydd y cynlluniau grantiau bach yn parhau i gefnogi newidiadau i'r seilwaith yn ystod ac ar ôl y cyfnod hwn.

Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio, byddwn hefyd yn dal ati i hyrwyddo manteision gorchudd coed a choetir ar ffermydd a chyfleoedd i rannu gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar weithgareddau ar ffermydd sy'n eu gwneud yn fwy effeithiolon ac sy'n ategu'r canlyniadau a'r gweithredoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Swyddogion a Grŵp Bord Gron y Gweinidog i sicrhau bod y Cynllun wir yn gweithio i ffermwyr ac yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein hamcanion natur a hinsawdd. Mae'n bwysig nodi nad y cynllun amlinellol a gyhoeddwyd yw'r Cynllun terfynol ac nad yw Gweinidogion Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol yn ei gylch. Bydd y dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith yn cael eu darparu ochr yn ochr â manylion terfynol y cynllun i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r cynllun yn briodol i ffermwyr yng Nghymru.

Bydd y Cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi yn haf 2025, cyn dechrau ar 1 Ionawr 2026.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymroddiad a gwaith caled pawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hyd yn hyn. Rydym yn cydnabod arwyddocâd y cydweithredu hwn a'i effaith ar gydnerthedd ein diwydiant ffermio a lles ein ffermwyr.

# 6. Atodiad

Atodiad A – Aelodau o Grŵp Bord Gron y Gweinidog a'r Is-grwpiau

| Partner | Y Grŵp Bord Gron | Y Panel Carbon | Y Grŵp Swyddogion |
|---|---|---|---|
| **Afonydd Cymru** | | | ✓ |
| **Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth** | ✓ | | ✓ |
| **Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru** | ✓ | | ✓ |
| **Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol** | | | ✓ |
| **Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain** | ✓ | | |
| **Cymdeithas Milfeddygon Prydain** | ✓ | | |
| **Coed Cadw *** | ✓ | | ✓ |
| **Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Confor** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **DPJ Foundation** | ✓ | | |
| **Dŵr Cymru** | | | ✓ |
| **Undeb Amaethwyr Cymru** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt** | | | ✓ |
| **Game & Wildlife Conservation Trust** | | | ✓ |
| **Hybu Cig Cymru** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cynrychiolydd ffermwyr annibynnol** | ✓ | ✓ | |
| **Cynrychiolydd milfeddygon annibynnol** | | | ✓ |
| **Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol** | | | ✓ |
| **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol** | | | ✓ |
| **Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar** | | | ✓ |
| **Cymdeithas y Pridd** | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sustainable Food Trust** | | | ✓ |
| **Tirweddau Cymru / Landscapes Wales** | | | ✓ |
| **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant** | ✓ | | ✓ |
| **Cyswllt Amgylchedd Cymru** | | | ✓ |
| **Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru** | ✓ | | ✓ |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | | | ✓ |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | | | ✓ |
| **Ymddiriedolaethau Natur Cymru** | ✓ | | ✓ |
| **World Wild Fund for Nature** | | | ✓ |
| **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru** | ✓ | | ✓ |
| **Grŵp Cynghrair Garddwriaeth Cymru** | | | ✓ |

*Hefyd yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon